Estyn
Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Arolygiaeth Heddlu EM
Arolygiaeth Carchardai EM
Arolygiaeth Prawf EM
Swyddfa Safonau Addysg
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Cyd-Arolygu Timau Troseddau Ieuenctid Cymru a Lloegr

Adroddiad: Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bro Morgannwg

ISBN: 978 1 84099 115 4

2008

Rhagair

Cynhaliwyd arolygiad GTI Bro Morgannwg ym mis Hydref 2007, yn ystod pedwerydd cyfnod ein rhaglen arolygu TTI.

Gwelsom GTI a oedd yn methu mewn sawl maes o bwys. Nid oedd gan y Bwrdd Rheoli gadeirydd parhaol ac roedd yn brin o arweiniad a chyfeiriad. Nid oedd gan gynrychiolwyr allweddol o'r gwasanaethau plant, iechyd, addysg a'r heddlu ddigon o statws ac nid oedd digon digon o bobl yn mynychu cyfarfodydd.

Roedd y GTI yn wynebu llwyth gwaith uchel yng nghyd-destun materion rheoli heb eu datrys, swyddi gwag, swyddi a oedd yn destun cyllid tymor byr a chyfraddau salwch uchel. Fodd bynnag, gwelsom staff unigol a oedd yn ymroddedig i weithio gyda phlant a phobl ifanc, ynghyd â rhai enghreifftiau da o waith arloesol ac adeiladol yn y llysoedd, mewn perthynas â'r Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys a chyda rhieni/gofalwyr.

Ein hasesiad cyffredinol o GTI Bro Morgannwg oedd nad oedd yn gweithio i safonau cenedlaethol ac roedd ganddo ddyfodol ansicr. O ganlyniad, bydd y GTI yn cael ei arolygu unwaith eto ymhen 12 mis er mwyn asesu cynnydd. Credwn fod yr adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion a fydd yn helpu'r GTI i wella.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf EM

Ebrill 2008

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff y GTI, aelodau'r Bwrdd Rheoli a sefydliadau partner am eu cymorth wrth sicrhau bod yr arolygiad hwn yn mynd rhagddo'n rhwydd.

Yn benodol, hoffem ddiolch i Rhiannon Jones, swyddog gweinyddol, a Paula Barnett, cynrychiolydd y GTI, am eu hymroddiad i'r arolygiad.

Arolygydd Arweiniol	*John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Steve Blackburn Arolygiaeth Heddlu EM, Jane Harris Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Keith Humphreys Arolygiaeth Prawf EM, Gerard Kerslake Estyn, Rowena Myles Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Glen Suttenwood Arolygiaeth Heddlu EM*
Aseswyr Arfer	*Chris Mills, Paula Williams*
Staff Cefnogi	*Kate Hurn, Oliver Kenton*
Tîm Cyhoeddiadau	*Zach Rathore, Rachel Dwyer*
Golygydd	*Julie Fox Arolygiaeth Prawf EM*
Cynrychiolydd y GTI	*Paula Barnett*

Cynnwys

		Tudalen
	Rhestr termau	4
	Crynodeb	5
	Argymhellion	8
	Camau nesaf	8
	Safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaeth	9
	Rhannu arfer da	11
1.	GWAITH YN Y LLYSOEDD	13
2.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED	16
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc mewn perygl o droseddu	16
	Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	20
	Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	25
	Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	27
3.	GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN DEDFRYDAU O GARCHAR	29
4.	DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL	33
5.	RHEOLI AC ARWAIN	36
	Arwain a chynllunio	36
	Partneriaeth ac adnoddau	37
	Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff	40
	Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol	43
	Atodiad 2: Data arolygu	44
	Atodiad 3: Trefniadau cyd-arolygu	45
	Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'i chod ymarfer	45

Rhestr termau

ACD	Adroddiad cyn dedfrydu
ACEM	Arolygiaeth Carchardai EM
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AHEM	Arolygiaeth Heddlu EM
ANC	Arbenigwr Nyrsio Clinigol
APEM	Arolygiaeth Prawf EM
ASBO	Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
Asset	Dull asesu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
BCI	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
CHA	Cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg
EM	Ei Mawrhydi
Estyn	Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
GTI	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
MSc	Gradd ôl-raddedig Meistr Gwyddoniaeth
NCH	Cartrefi Plant Cenedlaethol
Ofsted	Swyddfa Safonau Addysg
Onset	Dull a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i asesu plant a phobl ifanc mewn perygl o droseddu
PCCI	Panel Cefnogi Cynhwysiad Ieuenctid
PPO	Troseddwr Toreithiog a Throseddwr arall o Flaenoriaeth
RHCI	Rhaglen Cynhwysiad Ieuenctid
RHGGDD	Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys
SIFA	Cyfweliad sgrinio i bobl ifanc (Dull sgrinio iechyd meddwl cymeradwyedig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweithwyr arbenigol)
SQIFA	Cyfweliad holiadur sgrinio i bobl ifanc (Dull sgrinio iechyd meddwl cymeradwyedig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer gweithwyr TTI)
STI	Sefydliad troseddwyr ifainc
STIEM	Sefydliad Troseddwyr Ifainc EM
TTI	Tîm Troseddau Ieuenctid
UMIS	System Gwybodaeth Fonitro Gyffredinol
YOIS	System gwybodaeth troseddau ieuenctid

Crynodeb

Meini prawf	Barn
Gwaith yn y llysoedd	**3**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc mewn perygl o droseddu	**1**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu	**1**
Gwaith gyda rhieni/gofalwyr	**3**
Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned	**1**
Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun dedfrydau o garchar	**2**
Dioddefwyr a chyfiawnder adferol	**2**
Rheoli ac arwain	**1**

Barn	Disgrifydd
4	Rhagorol – perfformio'n gryf, ymhell uwchben y lleiafswm gofynion â nodweddion neilltuol
3	Da – perfformio'n dda, yn gyson uwchben y lleiafswm gofynion heb ddiffygion pwysig
2	Digonol – yn cwrdd â'r lleiafswm gofynion yn unig
1	Annigonol – nid yw'n cyflawni'r lleiafswm gofynion, ac mae llawer o ddiffygion pwysig

Gwaith yn y llysoedd

- Roedd ynadon y llysoedd ieuenctid, Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion llys yn hyderus o'r gwasanaethau cefnogi a goruchwylio a gynigir gan y GTI, gan gynnwys y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys ac ailadroddiadau nad ydynt mewn unedau cadarn.
- Roedd adroddiadau cyn dedfrydu o ansawdd da yn gyffredinol ond nid oedd rhai'n defnyddio'r fformat cymeradwyedig ac roedd angen eu gwella o ran dadansoddi troseddau, amrywiaeth ac ymdrin â barn dioddefwyr.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

- Er y cafwyd rhai enghreifftiau da o weithio gyda rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc mewn partneriaeth â Chartrefi Plant Cenedlaethol Cymru, nid oedd gan y GTI banel cefnogi cynhwysiad ieuenctid na gwasanaeth atal sefydledig.
- Roedd y GTI yn gweithio o dan bwysau sylweddol oherwydd swyddi gwag a chyfraddau salwch uchel. Roedd asesu achosion yn gyffredinol dda ond nid oedd y cynlluniau ymyrryd cychwynnol yn ymdrin â'r holl faterion a restrwyd yn yr asesiadau.
- Nid oedd digon o gyswllt gyda'r gwasanaethau plant i sefydlu statws gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc a chael at wasanaethau i blant a phobl ifanc mewn angen.
- Roedd gan y GTI y potensial i ddarparu gwasanaeth iechyd o ansawdd da ond nid oedd asesiadau iechyd yn ddigon da ac nid oedd cynlluniau ymyrryd yn cael eu holrhain yn effeithiol.
- Roedd gwaith cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg yn anghyson. Gadawyd plant a phobl ifanc dan 16 oed heb ddarpariaeth addysgol ddigonol yn aml; roedd yn well ar gyfer y rhai 16 oed a hŷn.
- Roedd gwaith gyda rhieni/gofalwyr o safon dda. Roedd rhieni/gofalwyr yn rhan o'r asesiadau ac roeddent yn cael eu hysbysu o gynnydd eu plant.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun dedfrydau o garchar

- Os anfonwyd neu os dedfrydwyd plant neu bobl ifanc i sefydliad cadarn, anfonwyd gwybodaeth allweddol ar unwaith i'r sefydliad hwnnw.
- Roedd asesu plant a phobl ifanc a oedd yn destun gorchmynion dal a hyfforddi a chyfathrebu gyda sefydliadau'n gyffredinol dda.
- Roedd rheolwyr achos yn ymweld â'r sefydliad achos ac yn helpu i hwyluso cyflawni'r cynllun hyfforddi a pharatoi plant neu bobl ifanc cyn eu rhyddhau.
- Cynigiodd y GTI raglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys gynhwysfawr ac a addaswyd yn unigol i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod cymunedol eu dedfrydau o garchar.

- Yn gyffredinol, cyflawnwyd nodau cynlluniedig ym mwyafrif yr achosion a arolygasom, roedd ymddygiad wedi gwella a bu manteision amlwg i'r gymuned.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

- Roedd y GTI yn rhagweithiol yn annog dioddefwyr i gymryd rhan mewn prosesau cyfiawnder adferol.
- Ni chofnodwyd gwybodaeth a phenderfyniadau dioddefwyr am wahoddiadau i gymryd rhan mewn proses cyfiawnder adferol ym mwyafrif yr achosion ac anaml iawn y byddai dioddefwyr yn mynychu cyfarfodydd y Panel Troseddwyr Ifainc.
- Roedd y cydlynydd dioddefwyr wedi gadael y GTI yn yr wythnosau cyn yr arolygiad ac roedd y swydd yn dal yn wag ar adeg yr arolygiad.
- Roedd gan y GTI ystod o ymyriadau cyfiawnder adferol ar gael a phrynwyd bws mini, trwy gyllid gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, i hwyluso gwaith gwneud iawn.

Rheoli ac arwain

- Nid oedd y Bwrdd Rheoli'n gweithredu i safon dderbyniol. Nid oedd ganddo gadeirydd parhaol ac roedd yn brin o arweiniad a chyfeiriad.
- Nid oedd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 wedi ei integreiddio â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phlant a Phobl Ifanc, na chynlluniau a strategaethau allweddol eraill.
- Ni ymdriniwyd â materion amrywiaeth a gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) am Gynllun yr Iaith Gymraeg yng nghyd-destun y GTI.
- Roedd morâl staff yn isel iawn oherwydd materion rheoli heb eu datrys, swyddi gwag ac absenoldeb salwch tymor hir.
- Nid oedd staff ar unrhyw lefel yn cael eu goruchwylio na'u gwerthuso'n gyson i'r safon ofynnol.

Argymhellion

Mae angen rhoi newidiadau ar waith er mwyn sicrhau bod (nodir y sawl sy'n bennaf gyfrifol mewn cromfachau):

(1) gan y Bwrdd Rheoli gyfansoddiad priodol; ei fod yn gweithio yn unol â'i amodau gorchwyl; bod asiantaethau partner atebol yn ei gefnogi'n briodol; a bod aelodau newydd yn cael eu hymsefydlu a'u paratoi'n briodol ar gyfer eu rôl (Prif Weithredwr)

(2) gan y GTI rôl strategol glir yn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phobl Ifanc ac y gall gynyddu ei fedrau â'u cefnogaeth nhw (Prif Weithredwr)

(3) gan y gwasanaeth y staff i'r lefelau y cytunwyd arnynt gan asiantaethau partner er mwyn diwallu gofynion y gwasanaeth (Bwrdd Rheoli)

(4) y Bwrdd Rheoli yn datblygu ei fframwaith rheoli perfformiad er mwyn monitro ac arolygu gweithrediad y cynllun cyfiawnder ieuenctid ac arwain cyfeiriad strategol y GTI (Bwrdd Rheoli)

(5) rheolwr y GTI yn destun goruchwyliaeth ffurfiol a chynlluniedig (Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)

(6) yr holl staff, gan gynnwys staff gweinyddol, yn cael eu goruchwylio a'u gwerthuso'n rheolaidd tu mewn i fframwaith rheoli perfformiad (Rheolwr y GTI)

(7) y GTI yn cael ei gefnogi i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd hyfforddi a datblygu unigol, a chyfleoedd adeiladu tîm (Prif Weithredwr)

(8) holl agweddau safonau cenedlaethol sy'n ymwneud ag arfer a rheolaeth weithredol yn cael eu cyflawni, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

  (8.1) ddatblygu gwasanaeth atal i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc unigol (Rheolwr y GTI)

  (8.2) gwella ansawdd asesiadau amlasiantaeth a chyfraniadau gan reolwyr achos y GTI a staff arbenigol, gwasanaethau plant a theuluoedd, a chydweithwyr addysg ac iechyd i gynlluniau ymyrryd (Rheolwr y GTI)

  (8.3) gwella ansawdd cynlluniau ymyrryd cychwynnol ac, yn benodol, rheoli'r risg o niwed a helpu plant a phobl ifanc i 'gadw'n ddiogel' (Rheolwr y GTI)

  (8.4) datblygu gwaith gyda dioddefwyr a chyfiawnder adferol (Rheolwr y GTI).

Camau nesaf

Dylid cyflwyno cynllun gwella sy'n ymdrin â'r argymhellion i Arolygiaeth Prawf EM i'w gymeradwyo bedair wythnos yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu hwn. Unwaith iddo gael ei gymeradwyo, bydd y cynllun yn cael ei anfon i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn monitro ei weithrediad.

Cyflawnir arolygiad arall ymhen rhyw 12 mis oherwydd ein pryderon difrifol am waith y GTI.

Safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaeth

Plant a phobl ifanc

Cwblhaodd 21 o blant a phobl ifanc holiadur ar gyfer yr arolygiad. O'r rhain, roedd 19 yn rhyngweithiol ar feddalwedd cyfrifiadurol. Cwblhawyd 2 ar bapur yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Adroddodd y plant a phobl ifanc am lefelau uchel o ddealltwriaeth o bwrpas eu hymgysylltiad â'r GTI, materion gorfodi a'r hyn roedd cyswllt yn ei olygu. Dywedodd un unigolyn ifanc fod *ei ddicter wedi lleddfu a bod ei allu i beidio â bod yn rhan o helbul a cherdded i ffwrdd wedi gwella.*
- Teimlodd ymatebwyr eu bod wedi cael help gydag ystod eang o faterion ac anghenion, eu bod yn cael eu trin â pharch ac y gwnaed popeth i'w helpu i gael y mwyaf o'u cyswllt gyda'r GTI. Roedd 19 o'r 21 o blant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn llai tebygol o droseddu o ganlyniad i'w gwaith gyda'r GTI. Soniasant am ymgysylltiad effeithiol gyda staff y GTI, triniaeth deg a pharchus, ynghyd â sawl gwelliant cadarnhaol i'w bywydau.
- Y sgôr bodlonrwydd gyffredinol ar raddfa 1-4 oedd 2.9.

Ni chyfwelwyd â phlant a phobl ifanc yn y ddalfa oherwydd i lai na phump o blant a phobl ifanc fod mewn unrhyw un sefydliad cadarn yn y cyfnod cyn yr arolygiad.

Rhieni/gofalwyr

Cwblhawyd tri holiadur gan rieni/gofalwyr, naill ai'n annibynnol neu yn ystod cyfweliad gydag arolygydd. Cwblhawyd un holiadur arall yn rhannol yn unig.

- Cafodd mwyafrif y rhieni/gofalwyr ymglymiad y GTI yn ddefnyddiol, ond nid dyma'r achos bob amser. Dywedodd mam un bachgen 17 oed *y buasai wedi bod yn ddefnyddiol deall y broses a'r rheswm dros yr ymglymiad hwn heb orfod dibynnu ar ei mab.*
- Roedd yr holl rieni/gofalwyr yr oedd eu plant o dan 16 oed ac mewn cyswllt statudol yn ymwybodol o'r ddedfryd ac roeddent yn cael eu hysbysu o ddiweddariadau ac roeddent wedi eu hymglymu. Credodd 2 o'r 3 rhiant/gofalwyr eu bod wedi cael help gyda'u sgiliau magu plant a bod pethau wedi gwella i'w plentyn oherwydd eu cyswllt: *"Bu i ni fynd ar gwrs magu plant a gwelsom ei fod wedi'n galluogi i ailsefydlu ein perthynas â'n mab er mwyn symud ymlaen o'r ymddygiad negyddol rydyn ni gyd yn ei arddangos".*
- Y sgôr bodlonrwydd gyffredinol ar raddfa 1-4 oedd 3.

Dioddefwyr

Cwblhawyd 1 holiadur yn annibynnol gan ddioddefwr troseddu gan blant a phobl ifanc a chwblhawyd 1 yn ystod cyfweliad gydag arolygydd.

- Soniodd 1 dioddefwr am ansawdd uchel y cyswllt a'r cysylltiad gan y GTI. Roeddent yn cael eu hysbysu'n llawn am y broses gyfreithiol a'r opsiwn mewn perthynas â'u hymglymiad â'r plentyn neu unigolyn ifanc dan sylw.
- Roedd 1 dioddefwr yn gallu trafod gyda'r arolygydd yr hyn y byddai'r ddedfryd yn ei olygu i'r plentyn neu unigolyn ifanc. Roeddent yn gwybod hefyd sut byddai eu manylion personol yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac nid oeddent yn pryderu am ddiogelwch personol.

Rhannu arfer da

Isod ceir enghreifftiau o arfer da a welsom yn y GTI.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

Maen prawf cyffredinol: 2.5, 2.6, 2.7 a 2.8

Roedd Billy yn droseddwr toreithiog â rhestr hir o euogfarnau blaenorol a phroblemau difrifol mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol a sylweddau. Gwnaed ef yn destun y RHGGDD ym mis Medi 2006, ond methodd â chydymffurfio ac aed ag ef yn ôl i'r llys. Gohiriwyd y llys am bythefnos a rhoddwyd cyfle i Billy ddangos y gallai fodloni'r gofynion a llwyddo ar y rhaglen.

Ymatebodd Billy ac ailgychwynnodd y RHGGDD. Derbyniodd gymorth i ddiwallu ei hanghenion, gan gynnwys cyngor am alcohol a sylweddau a strategaethau ymdopi; hyfforddiant trwy 'Busnes Pobl' a ddilynwyd gan leoliad gwaith; a chefnogaeth bersonol i gael pasport, trwydded yrru a chyfrif banc.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd Billy wedi aildroseddu a chydymffurfiodd yn llawn ag amodau'r RHGGDD. Roedd wedi gadael ei hen grŵp o gyfoedion, roedd yn byw'n annibynnol gyda'i bartner ac roedd wedi ei ddyrchafu yn fforman yn y gwaith.

Roedd cyflogwr Billy am iddo ddysgu sut i yrru ac roedd wedi addo cerbyd iddo unwaith y deuai ei waharddiad gyrru i ben. Roedd Billy wedi cynilo arian ar gyfer gwersi gyrru ac roedd yn edrych ymlaen at yrru'n gyfreithlon yn dilyn sawl blwyddyn o yrru'n anghyfreithlon ac o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol yn aml.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

Maen prawf cyffredinol: 2.9

Trefnodd y GTI grwpiau rhieni/gofalwyr mewn partneriaeth â NCH Cymru. Cynhaliwyd pob grŵp am 8 i 10 wythnos a chanolbwyntiasant ar 'ymdrin ag ymddygiad arddegwyr'. Roedd system cyfeirio ac asesu yn ei lle, ac roedd yn cysylltu'r gwaith gyda rhieni/gofalwyr â'u plant, a oedd yn mynd i grŵp plant a phobl ifanc ar wahân.

Gwerthuswyd pob grŵp ac roeddent yn cael eu harolygu bob dwy flynedd. Arweiniodd y galw gwirfoddol am y rhaglen at sefydlu dau grŵp i rieni/gofalwyr i'w cynnal ar wahân ond ochr yn ochr yn ystod yr haf diwethaf. Roedd y ddau'n llwyddiannus iawn.

Adroddodd rhieni/gofalwyr ei fod wedi eu helpu trwy wella eu gallu i fagu eu plant a meithrin perthynas fwy cadarnhaol gyda'u plant.

Dioddefwyr a chyfiawnder adferol

Maen prawf cyffredinol: 4.1

Roedd y GTI, mewn partneriaeth ag Adran Gwasanaethau Gweladwy'r awdurdod lleol, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a modurdy lleol wedi prynu bws mini wedi ei addasu'n arbennig fel rhan o fenter lwyddiannus i wella'r amgylchedd a hyrwyddo diogelwch cymunedol.

Yn dwyn yr enw 'y criw gweladwy', cynhwysai'r fenter dîm teithiol o blant a phobl ifanc yn destun gorchmynion cymunedol ac a gyfeiriwyd gan y GTI i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol. Gweithiodd plant a phobl ifanc dan oruchwyliaeth ledled Bro Morgannwg yn tynnu graffiti, yn casglu sbwriel a chlirio tir. Dosbarthwyd y cynllun yn hyfforddiant achrededig, a fyddai'n helpu gyda cheisiadau plant a phobl ifanc am gyflogaeth yn y dyfodol.

Roedd y cynllun wedi denu cyhoeddusrwydd cadarnhaol a gwelwyd ef yn ffordd adeiladol i blant a phobl fainc a oedd wedi troseddu ad-dalu'r gymuned am y niwed a achoswyd oherwydd eu hymddygiad.

1. GWAITH YN Y LLYSOEDD

1.1 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc eu hamddiffyn a byddant yn llai tebygol o droseddu eto o ganlyniad i ddarparu gwasanaeth cyn dedfrydu priodol, gan gynnwys goruchwylio mechnïaeth a rhaglenni cefnogaeth.

Eisteddodd Llys Ynadon Bro Morgannwg yn Y Barri, yn agos i swyddfa'r GTI. Eisteddodd y llys ieuenctid ddiwrnod yr wythnos â rhwng un a thri llys yn eistedd ar yr un pryd, wedi eu cefnogi'n llawn gan staff cymwysedig a phrofiadol o'r GTI. Cynhaliwyd llysoedd penwythnos a gwyliau banc yng Nghaerdydd fel arfer ac roedd aelod cymwysedig o staff y GTI yn bresennol bob amser. Roedd trefniadau yn eu lle hefyd i ddarparu gwasanaeth llanw ar gyfer llysoedd penwythnos a gwyliau banc ac ar gyfer gweithio ar draws saith ffin y GTI yn ardal Heddlu De Cymru.

Cryfderau:

(1) Rheolodd y GTI wasanaeth dyletswydd dydd a thu allan i oriau i isadran leol Heddlu De Cymru, a oedd yn cynnwys rheolwr ar ddyletswydd, swyddog ar ddyletswydd a gwirfoddolwyr priodol a oedd yn oedolion. Mae protocol yn bodoli gyda'r heddlu sy'n hysbysu'r GTI o'r holl blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dedfrydu i garchar neu sefydliad cadarn. Os yw plentyn neu unigolyn ifanc yn cael eu harestio dros nos i ymddangos gerbron llys y diwrnod dilynol, bydd gweithiwr mechnïaeth/ailadroddi amser llawn, swyddog llys ar ddyletswydd neu swyddog arall ar ddyletswydd yn bresennol. Os oeddent yn ymddangos ochr yn ochr â chyd-ddiffynnydd yn y llys oedolion, roedd trefniadau yn eu lle i'r llys hysbysu'r GTI ac roedd y swyddog llys ar ddyletswydd neu'r gweithiwr mechnïaeth/ailadroddi yn trefnu bod yn bresennol. Roedd y trefniadau hyn yn cwmpasu penwythnosau a gwyliau banc hefyd.

(2) Roedd ynadon y llys ieuenctid, Gwasanaeth Erlyn y Goron a swyddogion llys yn hyderus o'r gwasanaethau cefnogi a goruchwylio a gynigir gan y GTI, gan gynnwys RHGGDD ac ailadroddiadau nad oeddent ar gyfer y sefydliad cadarn. Cawsom wybod bod unrhyw weithredu bob amser yn brydlon, yn enwedig pan roedd carchar yn cael ei ystyried. Lle bo'n briodol, roedd y GTI yn trafod materion rheoli risg gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn perthynas â chefnogaeth mechnïaeth yn y gymuned ac roedd bob amser yn gallu cyflwyno achos am becynnau credadwy amgen i garchar a gynhwysai RHGGDD. Roedd y GTI, mewn partneriaeth â thri TTI arall, yn gweithredu system ar gyfer darparu lleoliadau ailadroddi tu mewn a thu allan i ffiniau awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc gerbron y llysoedd lleol. Os oedd plant a phobl ifanc yn methu â chydweithredu, roedd y GTI yn eu dychwelyd i'r llys ar y cyfle cyntaf

ac roedd hyn yn gwella ei gredadwyedd yn y llys.

(3) Os oedd plant a phobl ifanc yn cael eu hanfon i sefydliad cadarn neu ddalfa, cyfwelwyd â nhw a'u hasesu mewn perthynas â'r bregusrwydd. Rhoddwyd y wybodaeth hon i'r sefydliad cadarn ar unwaith. Roedd gweithiwr y GTI yn cyfrannu'n effeithiol wedyn i gyfarfodydd cynllunio ailadroddi a, lle bo'n briodol, yn gwneud ceisiadau pellach am fechnïaeth a phecynnau cefnogi amgen.

(4) Roedd y defnydd o ddedfrydau o garchar wedi gostwng o 3.7% ar gyfer y cyfnod Ebrill 2005-Mawrth 2006 i 2.8% ar gyfer 2006-Mawrth 2007, yn erbyn targed cenedlaethol o 5%.

Meysydd i'w gwella:

(1) Credai staff y GTI fod trefniadau cydweithio rhyngddynt a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn annigonol. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd protocol rhwng y gwasanaethau yn ei le ac nid oedd cytundeb yn bodoli mewn perthynas â throthwyon ar gyfer plant mewn angen a llety. Ymddangosai hefyd fod diffyg dealltwriaeth o rolau gwahanol a gallai hyn gael effaith negyddol ar y gallu i ddiogelu plant a phobl ifanc yn y gymuned.

(2) Nid oedd mynediad i YOIS yn Llys Ieuenctid Caerdydd. O ganlyniad, nid oedd gan staff fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn cynghori'r llys.

(3) Roedd prinder darpariaeth addysgol i blant a phobl ifanc dan 16 oed a oedd yn destun RHGGDD. Roedd y GTI wedi cyflwyno ei gynllun ei hun fel trefniant tymor byr i ymdrin â'r diffyg.

(4) Roedd ailadroddiadau i'r ystad gadarn wedi gostwng o 40.9% ar gyfer y cyfnod Ebrill 2005-Mawrth 2006 i 33.3% yr ailadroddiadau rhwng Ebrill 2006-Mawrth 2007, yn erbyn targed cenedlaethol o 30%.

1.2 Maen prawf cyffredinol:

Caiff y llysoedd eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau doeth, amserol ac effeithiol o ganlyniad i'r GTI yn darparu adroddiadau o ansawdd da a gwybodaeth briodol.

Rhoddwyd blaenoriaeth uchel iawn i waith cyswllt â'r llys gan y GTI, ac roedd holl staff y GTI dan sylw wedi eu hintegreiddio'n llawn ac yn cael eu parchu gan y llysoedd ieuenctid a wasanaethant. Roedd perthynas waith dda gydag ynadon a swyddogion proffesiynol eraill yn y llys.

Cryfderau:

(1) Roedd cynrychiolwyr yr ynadon, swyddogion llys a Gwasanaeth Erlyn y Goron y cyfwelwyd â nhw ar gyfer yr arolygiad hwn yn llawn clod am waith cyswllt y GTI yn y llys ac roeddent yn hyderus o'r ddarpariaeth cyfiawnder ieuenctid leol. Dywedwyd bod staff yn wybodus ac yn ymddwyn yn broffesiynol.

Cyflwynwyd ACD o fewn yr amserlenni gofynnol ac roeddent o safon uchel. Cyflwynwyd adroddiadau llafar ac ysgrifenedig â chasgliadau a chynigion clir.

(2) O'r 20 o ACD a arolygasom, aseswyd bod 75% o'r safon ofynnol. Roedd gan y GTI drefniadau didoli yn eu lle, ac roedd pob adroddiad yn cael ei sgrinio naill ai gan aelod o dîm y llys a/neu reolwr yn y GTI. Cofnodwyd yr holl wybodaeth berthnasol ar ffurflen fonitro'r llys i'w pharatoi ar gyfer y llys. Roedd y staff a oedd yn rhan o waith llys wedi derbyn hyfforddiant mewn safonau cenedlaethol ac roeddent yn meddu ar ddigon o gymwysterau a phrofiad i gyflawni'r rôl.

(3) Dilynwyd cynigion am ddedfrydau cymunedol gan y llys mewn bron i dri chwarter yr ACD a arolygasom.

(4) Roedd adran risg yr ACD yn gwahaniaethu rhwng y tebygrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed i eraill mewn 18 o'r 20 adroddiad perthnasol.

(5) Roedd ACD yn briodol, cryno, yn seiliedig ar dystiolaeth berthnasol gan Asset, ac yn rhydd o iaith wrthwahaniaethol a stereoteipio mewn canran uchel iawn o'r sampl o adroddiadau.

(6) Cyfwelwyd â mwyafrif helaeth y plant a phobl ifanc a'r rhieni/gofalwyr o leiaf unwaith yn benodol ar gyfer yr ACD.

Meysydd i'w gwella:

(1) O'r 19 o adroddiadau priodol, defnyddiodd llai na hanner y fformat ACD a gymeradwywyd yn genedlaethol.

(2) Derbyniodd llai na hanner y plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr gopïau neu esboniad llawn o'r ACD.

(3) Ymdriniwyd â materion amrywiaeth yn ddigonol mewn ychydig dros hanner yr adroddiadau a arolygwyd yn unig.

(4) Mewn ychydig llai na hanner yr ACD a arolygwyd, nid oedd adroddiadau llys yn ystyried yn benodol aeddfedrwydd plant a phobl ifanc o ran eu gallu i ddeall difrifoldeb y trosedd a'i ganlyniadau na'u gallu i gyflawni'r ddedfryd arfaethedig.

(5) Cynhwyswyd dymuniadau dioddefwyr mewn perthynas â'u parodrwydd i ymgysylltu â chyfiawnder adferol a gwneud iawn mewn 2 o'r 18 o'r achosion perthnasol yn unig. Cynhwyswyd gwybodaeth briodol am ddioddefwyr mewn tri o'r 19 o achosion yn unig a oedd yn cynnwys dioddefwr.

(6) Adroddodd y GTI nad oedd ganddo drefniadau yn eu lle i roi adborth ffurfiol ar ansawdd ACD na'r canlyniadau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc sy'n destun gwahanol orchmynion a wnaed gan y llysoedd.

Casgliad: Aseswyd bod y meini prawf hyn yn **dda**.

2. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC YN Y GYMUNED

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc mewn perygl o droseddu

2.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI (neu eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Roedd y GTI yn rhan o nifer o gynlluniau atal heb eu cyd-drefnu. Roedd Panel Atal ac Osgoi yn cael ei sefydlu fel is-grŵp y Bartneriaeth Bro Ddiogelach i ystyried datblygu PCCI a oedd, ar adeg yr arolygiad, wedi methu â chael cyllid gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Cryfderau:

(1) Cwblhawyd ffurflenni cychwynnol Onset yn briodol ym mwyafrif yr achosion mewn perthynas â'r penderfyniad i gynnig gwasanaethau ac amserlenni. Cyfwelwyd â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr o leiaf unwaith ym mhob un achos ac roedd y ffurflenni Onset yn ddigon da mewn 6 o'r 9 achos a arolygasom.

(2) Roedd proses gynhwysfawr ar gyfer cyfeirio, asesu ac adolygu achosion unigol yn ei lle.

(3) Roedd y GTI yn rhedeg cynllun arloesol mewn partneriaeth â NCH Cymru, sef dwy raglen grwpiau atal yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Cynlluniwyd tri grŵp yn gweithio'n gyfochrog ar gyfer 2007 (gyda mwyafswm o 10 o rieni/gofalwyr a 10 o blant a phobl ifanc fesul grŵp) ac roedd gwerthusiad ar gyfer y cyfnod Mawrth 2007 tan fis Mai 2007 wedi ei gwblhau. Rhoddwyd tystysgrifau cyrhaeddiad i'r rhai a lwyddai i gwblhau'r cwrs.

(4) Cynhwysai rhaglen grŵp atal yr NCH/GTI 8 o weithdai grŵp wythnosol a gynlluniwyd i roi sgiliau magu plant, sgiliau bywyd, ymwybyddiaeth o gymuned, sgiliau cyfathrebu, meddwl am ganlyniadau a hybu iechyd da, gan gynnwys cadw'n ddiogel, i'r rhai a oedd yn rhan ohonynt.

(5) Derbyniwyd cyfeiriadau i'r rhaglen gwaith grŵp hwn gan y Grŵp Datrys Problemau ASBO, addysg, CAMHS a'r gwasanaethau cymdeithasol trwy ddefnyddio ffurflenni cyfeirio a chaniatâd Onset.

(6) Gwerthuswyd y rhaglen plant a phobl ifanc gan arweinydd y cwrs, ac roedd plant a phobl ifanc unigol wedi cwblhau eu gwerthusiad eu hunain o'r cwrs, a oedd yn gadarnhaol iawn. Roedd rhieni/gofalwyr yn siarad yn bositif am y rhaglen hefyd a'i heffaith arnynt fel teulu.

(7) Roedd y GTI wedi defnyddio cyllid y rhaglen Splash Cymru i gyflwyno rhaglenni atal yn y gymdogaeth yn ystod y gwyliau ysgol mewn dwy ardal Cymunedau'n Gyntaf. Darparwyd y rhaglen mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ieuenctid, Vibe Experience (grŵp cyfryngau a chelfyddydau lleol i blant a phobl ifanc) a'r gwasanaethau hamdden. Roedd y GTI yn rhan o gyflawni gwaith atal ar sail amlasiantaeth mewn tair ysgol uwchradd trwy'r rhaglen 'Crime of Your Life'.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd gan y GTI gytundeb partneriaeth yn ei le gyda NCH Cymru i ddarparu tair rhaglen grwpiau magu plant a thri grŵp cyfochrog plant a phobl ifanc yn ystod 2007. Er iddi fod yn llwyddiannus, roedd y rhaglen i blant a phobl ifanc yn dibynnu ar frwdfrydedd ac ymroddiad y cydlynydd dioddefwyr a oedd wedi cael y GTI. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y swydd hon wedi ei llenwi.

(2) Roedd gan blant a phobl ifanc gofnodion achos unigol, ond roedd y rhain yn brin o safonau cenedlaethol, ac wedi eu cofnodi ar ffeiliau papur. Roedd ffurflenni cyfeirio a sgrinio cychwynnol Onset wedi cael eu cwblhau ond cyflawnwyd yr ymyriad cynradd gyda'r grŵp yn hytrach na'r plentyn neu unigolyn ifanc unigol. Ni adolygwyd Onset ac roedd cynlluniau ymyrryd unigol plant a phobl ifanc unigol yn annigonol ym mwyafrif yr achosion. Fodd bynnag, roedd plant a phobl ifanc wedi cael budd o'r rhaglen ac roedd ganddynt rai sylwadau cadarnhaol iawn i'w cynnwys yn eu ffurflenni gwerthuso unigol.

(3) Nid oedd Onset yn cael ei arwain trwy gyswllt â'r gwasanaethau plant na darparwyr addysg/hyfforddiant ym mwyafrif yr achosion a arolygwyd.

(4) Aseswyd materion amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethol/anfanteisiol o bosibl ac anghenion unigol eraill yn gynnar mewn tri allan o'r deg achos a arolygasom yn unig. O'r rhain, aseswyd un achos yn sensitif i faterion amrywiaeth.

(5) Penodwyd gweithiwr allweddol enwebedig mewn pedwar o'r naw achos perthnasol.

(6) Prin iawn oedd y cydweithio rhwng y GTI ac asiantaethau partner yn absenoldeb rhaglen atal megis PCCI neu RHCI. Yn benodol, nid oedd gwasanaethau'n cael eu defnyddio fel mater o drefn i gwrdd ag anghenion unigol plant a phobl ifanc, o bosibl oherwydd y grŵp yn hytrach na chanolbwynt unigol.

(7) Nid oedd y gwasanaethau atal yn rhan o strategaeth atal nac yn gysylltiedig â phartneriaeth ehangach lleihau troseddu awdurdodau lleol. Cydnabuwyd bod hwn yn wendid sylweddol.

2.2 Maen prawf cyffredinol:

Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ei hyrwyddo gan waith y GTI a'i bartneriaid.

Cryfderau:

(1) Roedd rhaglen grŵp atal plant a phobl ifanc NCH/GTI yn cynnwys modiwlau ar ysmygu ac iechyd rhywiol, camddefnyddio sylweddau a chadw'n ddiogel. Gwnaed cyfeiriadau unigol â chaniatâd at asiantaethau allanol, gan gynnwys gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Inroads, er mwyn cael rhagor o wybodaeth a chyngor.

(2) Roedd gan y GTI dîm iechyd yn ei le, a oedd yn cynnwys tri unigolyn, sef ANC, nyrs arbenigol camddefnyddio sylweddau (CAMHS) a gweithiwr camddefnyddio sylweddau Inroads.

(3) Roedd llyfryn cyfarwyddyd ar gyfeiriadau iechyd ar gael, a oedd yn darparu gwybodaeth i bartneriaid mewnol ac allanol mewn perthynas â phrosesau cyfeirio, dyrannu, asesu ac ymyrryd.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nododd asesiad Onset dystiolaeth o anghenion emosiynol a chamddefnyddio sylweddau mewn mwy na hanner yr achosion a arolygwyd, ond ni chyfeiriwyd at wasanaethau iechyd prif ffrwd mewn unrhyw un o'r achosion hyn. Cyfeiriwyd dau achos at reolwr oherwydd absenoldeb gwasanaeth. Gwelwyd tystiolaeth o ymyriad unigol mewn pump o'r deg achos a oedd yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.

(2) Nid oedd ansawdd cyffredinol y gwaith i hyrwyddo iechyd plant a phobl ifanc mewn perygl o droseddu'n ddigonol mewn 78% o'r sampl.

2.3 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu eu hamddiffyn trwy waith y GTI a'i bartneriaid, er mwyn cyfrannu at hyrwyddo eu hiechyd a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.

Cryfder:

(1) Roedd rhaglen grŵp atal plant a phobl ifanc NCH/GTI yn cynnwys modiwlau i hyrwyddo lles ac amddiffyniad plant a phobl ifanc.

Meysydd i'w gwella:

(1) Ni ddarparwyd tystiolaeth i ddangos bod y GTI wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau plant yn ystod y cyfnod asesu er mwyn sefydlu statws gofal

cymdeithasol plant a phobl ifanc mewn perygl o droseddu.

(2) Nid oedd amddiffyn yn cael ei asesu'n llawn nac yn gywir mewn perthynas â phlant a phobl ifanc unigol mewn ffordd gynlluniedig. Ystyriwyd bod y dosbarthiad Risg o Niwed Sylweddol yn anghywir mewn tri allan o saith achos perthnasol. Mewn tri achos, gwelwyd tystiolaeth bod y plentyn neu unigolyn ifanc wedi bod mewn perygl o eraill ond ni chynhyrchwyd cynllun gweithredu bregusrwydd er mwyn lliniaru unrhyw anghenion y sylwyd arnynt.

(3) Nid oedd llawer o dystiolaeth o gydweithio trwy rannu gwybodaeth, cynllunio nac adolygu.

2.4 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu eu galluogi a'u hannog i gyflawni eu potensial.

Cryfder:

(1) Roedd rhaglen grŵp atal plant a phobl ifanc NCH/GTI yn anelu at hyrwyddo datblygiad personol pawb a fynychodd ac a gwblhaodd y cwrs. Datganodd plant a phobl ifanc yn eu gwerthusiad personol o'r rhaglen, a ddilynwyd gan noson gyflwyno a chael tystysgrif, fod y rhaglen wedi eu gwneud yn *fwy cyfrifol amdanyn nhw eu hunain a'u gweithrediadau.*

Meysydd i'w gwella:

(1) Ni nodwyd anghenion CHA yn gywir ac, o ganlyniad, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod plant a phobl ifanc wedi cael eu cefnogi i ddefnyddio'r gwasanaethau priodol.

(2) Nid oedd gan blant a phobl ifanc unigol gynllun addysg personol yn seiliedig ar feysydd o anghenion addysgol asesedig.

Casgliad: Aseswyd y meini prawf hyn fel rhai **annigonol**.

Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu

2.5 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI (neu eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol i atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Roedd yr holl gyfeiriadau at y GTI yn destun ymagwedd a arweiniwyd gan risg, yn cwmpasu achosion risg uchel, canolig ac isel mewn perthynas ag aildroseddu. Cyfeiriwyd achosion risg uchel at Fforwm Cynllunio Achos amlddisgyblaeth er mwyn llunio cynlluniau rheoli risg ac ymyrryd ac roedd y rhain yn cael eu harolygu trwy gydol y broses hon. Arolygwyd achosion risg ganolig ac isel ar y cyd â'r uwch ymarferydd perthnasol neu uwch reolwr fel y bo'n briodol. Rhestrodd y GTI, yn y dystiolaeth a ddarparwyd cyn yr arolygiad ac yn ystod cyfweliadau â staff, fod goruchwylio achosion gan uwch reolwr yn faes gwan. Roedd ymagwedd fwy strwythuredig at gynllunio cychwynnol ac arolygon wedi cael ei datblygu ond ni weithredwyd hi oherwydd ystod o broblemau staffio.

Cryfderau:

(1) Cwblhawyd Asset cychwynnol mewn pryd ac arweiniwyd ef gan rieni/gofalwyr, yn unol ag amserlenni safonau cenedlaethol mewn 25 o'r 35 o achosion a arolygwyd. Pan roedd rhieni/gofalwyr yn rhan o'r asesiad, roedd yn adlewyrchu anghenion penodol ac unigol a nodwyd ganddynt mewn perthynas â'r plentyn neu unigolyn ifanc dan sylw.

(2) Sgriniwyd y Risg o Niwed Sylweddol yn gywir mewn bron i dri chwarter y sampl.

(3) Arweiniodd arolwg o Asset at ailystyried y cynllun ymyrryd mewn 10 o'r 12 o achosion perthnasol a arolygwyd.

(4) Roedd y gweithiwr GTI yn monitro presenoldeb ar draws yr holl ymyriadau mewn 74% o'r sampl, ac roedd barn am dderbynioldeb/annerbynioldeb yn bennaf gyson a phriodol yn y pum achos perthnasol.

(5) Paratowyd adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer y Panel Troseddau Ieuenctid ym mhob achos ac roedd rhiant/gofalwr y plentyn neu unigolyn ifanc, neu riant corfforedig, yn mynychu'r panel mewn pump o'r saith o achosion am orchymyn cyfeirio.

(6) Roedd yr ymyriadau cynlluniedig yn ymdrin â gwneud iawn i'r dioddefwr a/neu'r gymuned ehangach mewn chwech o'r saith achos am orchymyn cyfeirio ac roeddent yn cynnwys cynllun ymyrryd i atal aildroseddu ym mhob achos.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nid oedd yr asesiadau cychwynnol o blant a phobl ifanc yn cael eu harwain yn ddigonol gan y gwasanaethau plant, cyswllt â darparwr addysg/hyfforddiant

neu asesiadau perthnasol eraill mewn mwy na 75% o'r sampl.

(2) Mewn 19 achos, ystyriodd y tîm arolygu nad oedd yr asesiad cychwynnol wedi bod o safon ddigonol. Ni wahoddwyd plant a phobl ifanc i gwblhau ffurflen *What do you think?* mewn 25 achos, o sampl o 35 o achosion.

(3) Rhoddwyd sylw i'r dulliau sy'n debygol o fod yn effeithiol gyda phlant neu bobl ifanc mewn 19 o'r 35 o achosion.

(4) Nodwyd pedwar achos fel rhai a allai fod yn Risg o Niwed Sylweddol posibl i eraill. Yn yr achosion hyn, ni chwblhawyd ffurflen Asset *Risg Ddifrifol o Niwed i Eraill* i safon ddigonol ac ni chyfathrebwyd y dosbarthiad i unrhyw staff a oedd yn rhan o'r achos. Nid oedd gan achosion gynlluniau rheoli risg yn eu lle; nid oedd rheolwyr canol nac uwch yn rhan o'r asesiad; ac nid oeddent yn ymgorffori materion dioddefwyr. Ni arolygwyd y risg o niwed i eraill mewn tri o'r pedwar achos.

(5) Methodd y cynlluniau ymyrryd cychwynnol â diwallu'r safon ofynnol mewn mwy na hanner y sampl mewn sawl maes allweddol, megis y tebygrwydd o aildroseddu, risg o niwed i eraill, ymwybyddiaeth dioddefwyr, cadw'n ddiogel ac ailintegreiddio i'r gymuned. Ni adolygwyd cynnydd yn erbyn nodau cynlluniau ymyrryd mewn 14 allan o 22 o achosion perthnasol.

(6) Mewn 15 o'r 25 o achosion a arolygwyd, ni chymerwyd camau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall gofyn y gorchymyn na'r cosbau ar waith os oedd y gorchymyn yn cael ei dorri.

(7) Aseswyd ymyriadau fel annigonol neu ddrwg mewn mwy na hanner achosion y sampl. Fodd bynnag, roedd gan y GTI fynediad at ystod eang o raglenni i blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr nad oeddent yn cael eu defnyddio'n gyson. Roedd y rhain yn cynnwys *Teen Talk*, rheoli dicter, cyfryngu, cynadledda grwpiau teulu, gweithio gyda dioddefwyr a rhaglenni'n cwmpasu iechyd rhywiol a chorfforol, a chamddefnyddio alcohol a sylweddau.

(8) Methodd amlder yr apwyntiadau â bodloni ystyriaethau risg o niwed ac amddiffyn mewn hanner yr achosion a arolygwyd. Hefyd, nid oedd cefnogaeth ar gyfer cyflawni nodau'r cynllun ymyrryd yn ddigon safonol mewn bron i hanner y sampl o 24 o achosion.

(9) Mewn 10 allan o 25 o achosion, ni chynhaliwyd yr apwyntiad cyntaf gyda phlentyn neu unigolyn ifanc yn dilyn dedfrydu o fewn 24 awr yn unol ag amserlenni safonau cenedlaethol. O'r rhain, cymerodd un ddiwrnod yn fwy na'r 24 awr, cymerodd tri rhwng 2 a 5 diwrnod yn fwy, cymerodd tri rhwng chwech a deng niwrnod yn fwy a chymerodd tri fwy na deng niwrnod.

(10) Roedd methiant i ymgymryd â thorri gorchymyn neu gychwyn ar hyn o fewn yr amserlenni gofynnol yn amlwg mewn tri o'r chwe achos perthnasol. Roedd ansawdd cyffredinol yr arfer mewn perthynas â hyrwyddo cydymffurfio'n annigonol neu ddrwg mewn 11 o'r 25 o achosion a arolygwyd.

(11) Ymdriniwyd â throsglwyddo achosion mewn ffordd gynlluniedig, amserol ac

effeithiol mewn dim ond un o'r pum achos a arolygwyd. Ni fu cyfathrebu priodol rhwng pawb dan sylw mewn pedwar achos.

(12) Mewn tri allan o saith achos, nid oedd y Panel Troseddau Ieuenctid yn eistedd o fewn 20 diwrnod o wneud gorchymyn. O'r rhain, roeddent yn ddiwrnod yn hwyr, rhwng dau a phum niwrnod yn hwyr a mwy na deng niwrnod yn hwyr. Roedd a wnelo'r achos a oedd yn fwy na deng niwrnod yn hwyr â phlentyn neu unigolyn ifanc a drosglwyddwyd o GTI arall.

(13) Ni weithredwyd er mwyn ymdrin ag anghenion llety mewn pedwar allan o naw achos perthnasol.

2.6 Maen prawf cyffredinol:

Caiff iechyd plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ei hyrwyddo gan waith y GTI.

Roedd gan y GTI fynediad at nifer o weithwyr iechyd penodedig. Roeddent yn cynnwys ANC a gyflogwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a Bro Morgannwg wedi ei lleoli yn swyddfa'r GTI. Roedd yr ANC yn nyrs iechyd meddwl oedolion cymwysedig ond nid yn nyrs CAMHS, felly nid oedd gan y GTI fynediad i weithiwr CAMHS Haen 3 penodedig, ac eithrio'r nyrs camddefnyddio sylweddau Haen 3, a sesiwn y mis gyda seiciatregydd ymgynghorol CAMHS.

Sefydlwyd swydd amser llawn y nyrs camddefnyddio sylweddau CAMHS Haen 3 (o Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda) er mwyn darparu gwasanaeth i'r gymuned ehangach ledled ardal Bro Morgannwg, ond roedd ar gael i'r GTI. Roedd gan y GTI swydd ar gyfer gweithiwr camddefnyddio sylweddau CAMHS Haen 1 a ddarparwyd gan Inroads, asiantaeth wirfoddol a ariennir ac a gomisiynir gan Fwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg. Roedd y seiciatregydd CAMHS ymgynghorol yn cynnal sesiynau ymgynghori misol yn delio ag achosion o flaenoriaeth y GTI a chynnig cefnogaeth i staff y GTI. Yn nhîm camddefnyddio sylweddau'r CAMHS, roedd mynediad i seiciatregydd gradd staff i gefnogi'r rhai a oedd yn gweithio gyda'r cleientiaid hyn ym Mro Morgannwg.

Nid oedd y tair swydd hon yn gweithredu i'w potensial llawn ar hyn o bryd. Roedd yr ANC yn dilyn cwrs MSc (a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag arfer gyda'r grŵp cleient) ac felly roedd yn absennol o'r GTI ddiwrnod yr wythnos er mwyn astudio. Roedd y swydd Haen 3 yn wag ar adeg yr arolygiad ond roedd yn cael ei llenwi'n dros dro gan nyrs arall a oedd yn gyfrifol am ddwy ardal awdurdod lleol, ac nid oedd hyn yn ddigon i fodlon anghenion y GTI. Roedd y swydd Haen 1 yn wag hefyd, ond roedd staff Inroads yn cynnig ychydig o fewnbwn.

Cryfderau:

(1) Roedd gan y GTI y potensial i ddarparu gwasanaeth iechyd cynhwysfawr pan roedd yr holl swyddi'n gwbl weithredol. Byddai darparu gweithiwr CAMHS penodedig a gwneud gwell ddefnydd o sgiliau'r ANC yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir yn sylweddol.

(2) Roedd y GTI wedi cytuno ar lwybr cyfeirio gyda'r CAMHS ar gyfer asesiad ac ymyriad iechyd meddwl arbenigol. Llywiwyd cyfeiriadau trwy ANC y GTI i'r seiciatregydd ymgynghorol y CAMHS eu hystyried. Roedd yr ymgynghorydd yn cynnal sesiynau misol yn y GTI, yn ogystal â gwasanaethau ymgynghorol i'r tîm iechyd ac aelodau eraill o'r staff fel y bo'n briodol.

(3) Lle nodwyd anghenion corfforol, emosiynol ac iechyd meddwl, a chamddefnyddio sylweddau, gwnaed cyfeiriad priodol am asesiad arbenigol mewn mwy na 75% o'r achosion. Roedd iechyd corfforol yn cael ei hyrwyddo trwy'r ymyriadau a ddarparwyd yn yr holl achosion perthnasol ac iechyd emosiynol a meddwl mewn 73% o'r achosion.

(4) Roedd asesiadau arbenigol tu allan i'r GTI yn brin ar gyfer pob agwedd ar anghenion iechyd. Fodd bynnag, pan roedd eu hangen, roeddent yn cael eu darparu gan wasanaethau lleol y GIG.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd cwblhau Asset yn annigonol gan iddo fethu â nodi anghenion iechyd corfforol yn gywir. O'r 31 o achosion, nodwyd iechyd corfforol mewn 4 achos ond ni nodwyd ef mewn 4 achos arall, er i'r angen fod yn amlwg. Ni ddefnyddiwyd SQIFA a SIFA mewn unrhyw un o'r achosion a arolygasom.

(2) Os nodwyd anghenion iechyd neu gamddefnyddio sylweddau, darparwyd ymyriad i'r plentyn neu unigolyn ifanc mewn rhyw hanner yr achosion hynny.

(3) Roedd yna dystiolaeth nad oedd y GTI wedi cefnogi plant neu bobl ifanc i gael at wasanaethau lleol mewn 11 o'r 19 o achosion perthnasol.

(4) Er iddo gael cefnogaeth seiciatregydd ymgynghorol y CAMHS, nid oedd gan y GTI brotocol yn ei le i gwmpasu mynediad i staff eraill y CAMHS.

2.7 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu hamddiffyn trwy waith y GTI i gyfrannu at hyrwyddo eu lles a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.

Cryfder:

(1) Yn ystod goruchwyliaeth, roedd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi bod yn gysylltiedig mewn tri allan o bedwar achos.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd y GTI wedi ymgysylltu'n weithredol â'r gwasanaethau plant a theuluoedd lleol yn y cyfnod asesu mewn 8 (24%) achos. Ni chofnodwyd statws gofal cymdeithasol phlant a phobl ifanc yn glir mewn 15 (47%) o'r achosion.

(2) O'r 35 o achosion a arolygwyd, bu trafodaeth rhwng gweithiwr y GTI a'r gwasanaethau plant mewn 7 (20%) o'r achosion.

(3) Roedd tystiolaeth i awgrymu bod plant neu bobl ifanc wedi bod yn risg i'w hunain mewn deng achos ac mewn perygl o eraill mewn chwe achos. Fodd bynnag, cynhyrchwyd cynllun gweithredu bregusrwydd mewn un achos yn unig.

(4) Lle ystyriwyd bod cyfeiriad yn hanfodol oherwydd bregusrwydd, roedd y gweithiwr wedi cyfeirio at y gwasanaethau plant mewn 2 allan o 6 achos.

(5) Ni ystyriwyd bod gweithredu i amddiffyn anghenion yn briodol mewn 10 o'r sampl ac roedd yr ansawdd cyffredinol yn annigonol mewn hanner yr achosion a arolygwyd.

(6) Roedd ansawdd cyffredinol y gwaith i helpu plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu i 'gadw'n ddiogel' yn anghyson. Roedd rheolwyr a staff yn hollol ymwybodol o'r gwendidau hyn ac yn teimlo'n rhwystredig iawn oherwydd eu hanallu i wella arfer o ganlyniad i brinder staff a threfniadau cysylltu gwan ag asiantaethau allweddol megis y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg.

2.8 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu eu galluogi a'u hannog i gyrraedd eu potensial.

Mae'r GTI wedi derbyn cyllid ychwanegol gan y BCI i gefnogi ymyriadau CHA, yn arbennig i blant a phobl ifanc ar RHGGDD a GDH. Defnyddiwyd cyllid i secondio gweithiwr a gwasanaethau eraill gan Gyrfaoedd Cymru a defnyddiwyd ychydig o gyllid i gefnogi partneriaeth gyda sefydliad gwirfoddol sy'n cynnig hyfforddiant sgiliau sylfaenol.

Cryfderau:

(1) Roedd gan y GTI fynediad at wyth mentor dysgu, yn gysylltiedig â swyddog lles addysg yn y GTI, i gefnogi plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu bygwth â gwaharddiad o'r ysgol. Os nodwyd anghenion CHA ar gyfer plant neu bobl ifanc o oed ysgol statudol, gwnaed cyfeiriadau priodol am asesiadau arbenigol mewn mwy nag 80% o achosion. Cynigiwyd ymyriad yn ymwneud â'r angen a nodwyd mewn mwy na 75% o achosion, a hyrwyddodd cynnwys yr ymyriad gyfleoedd dysgu ym mhob achos.

(2) Roedd perthynas gynhyrchiol rhwng y swyddog lles addysg a gweithiwr Gyrfaoedd Cymru. Roeddent yn gweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd wrth helpu plant a phob ifanc dros 16 oed i gael lle ar Ieuenctid Gyntaf, dysgu seiliedig ar waith ac addysg bellach. Gwnaed cyfeiriadau priodol at asesiadau arbenigol mewn mwy na 70% o'r achosion, a gwnaed ymyriad priodol i hyrwyddo dysgu mewn 80% o'r achosion a arolygwyd.

(3) Os gwnaed cyfeiriadau am asesiadau arbenigol tu allan i'r GTI ar gyfer plant a phobl ifanc dros yr oed ysgol statudol, darparwyd y gwasanaethau gofynnol yn y pedwar achos a gyfeiriwyd.

(4) Aseswyd bod ansawdd cyffredinol y gwaith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu galluogi a'u hannog i gyrraedd eu potensial yn ddigonol mewn 26 achos (87%) yn y sampl.

Meysydd i'w gwella:

(1) Ni chofnodwyd anghenion CHA plant a phobl ifanc na chynlluniau dilynol yn dda. Ni storiwyd gwybodaeth fanwl ar YOIS ac felly nid oedd ar gael i staff eraill gan gynnwys y rheolwr achos. Roedd hyn yn golygu bod cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu'n dibynnu ar sylw'r gweithiwr addysg yn unig.

(2) Nid oedd canlyniadau niweidiol yn deillio o fethiant partneriaid i gyflwyno darpariaeth CHA ddigonol yn cael eu nodi, gwerthuso na'u rhannu'n strategol gyda'r Bwrdd Rheoli.

(3) Heb gynlluniau clir, rhagweithiol a systematig yn eu lle, roedd plant a phobl ifanc dan 16 oed yn cael eu gadael yn rhy aml heb ddarpariaeth addysgol am wythnosau ar y tro. Lle'r oedd plentyn neu unigolyn ifanc wedi eu gwahardd yn ffurfiol o'r ysgol neu lle roeddent yn destun absenoldeb estynedig cytunedig o ysgol prif ffrwd, gwelsom na weithredwyd i'w hailintegreiddio i addysg amser llawn mewn tri allan o saith achos.

(4) Hysbysodd swyddogion addysg yr arolygwyr ei bod yn dod yn anoddach cael mynediad i ddarpariaeth UCD i blant a phobl ifanc a rhagwelwyd na fyddai'r ddarpariaeth hon ar gael yn y dyfodol agos.

Casgliad: Aseswyd bod y meini prawf hyn yn **annigonol.**

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

2.9 Maen prawf cyffredinol:

Caiff rhieni/gofalwyr eu cefnogi i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol eu plant.

Roedd gan y GTI gontract gyda NCH Cymru i ddarparu tri grŵp bob blwyddyn i rieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc. Cynhaliwyd y grwpiau adeg tymor am 8 i 10 wythnos ar gyfer mwyafswm o 10 rhiant a 10 plentyn neu unigolyn ifanc. Roedd y grŵp rhieni/gofalwyr yn canolbwyntio ar 'ymdrin ag ymddygiad arddegwyr' ac roedd yn ystyried cyfeiriadau gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu neu a oedd mewn perygl o droseddu.

Cryfderau:

(1) Roedd rhieni/gofalwyr wedi cael gwybod am ofynion yr ymyriadau a gyflawnwyd gan blant a phobl ifanc mewn 83% o'r achosion ac roeddent yn cael eu diweddaru o'u cynnydd mewn 88% o achosion.

(2) Hwyluswyd ymgysylltiad rhieni/gofalwyr â goruchwyliaeth eu plant neu bobl ifanc gan y GTI neu asiantaeth bartner mewn 88% o achosion.

(3) I'r rhieni/gofalwyr hynny a gyfeiriwyd ar gyfer ymyriad magu plant, boed yn wirfoddol neu drwy orchymyn llys, aseswyd sgiliau magu plant mewn ffordd amserol a chynigiwyd ymyriad yn seiliedig ar asesiad angen, gan gynnwys anghenion amrywiaeth mewn 15 o 16 o achosion posibl (94%).

(4) Roedd y contract ffurfiol gyda NCH Cymru yn cynnwys trefniadau ar gyfer cyfeiriadau ac roedd yn defnyddio Onset er mwyn asesu achosion atal ar y cychwyn ac Asset ar gyfer asesu plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu ar y cychwyn.

(5) Roedd yn well gan y GTI weithio gyda rhieni/gofalwyr yn wirfoddol. Ym mwyafrif yr achosion, hwylusodd y GTI gyfranogiad rhieni/gofalwyr.

(6) Roedd ymyriadau'n hyrwyddo sgiliau magu plant effeithiol mewn perthynas â gallu rhieni/gofalwyr i ofalu am les eu plant neu bobl ifanc, eu rheoli a'u hamddiffyn a hybu lles eu plant neu bobl ifanc mewn 12 o'r 15 achos (dros 80%) yn y sampl.

(7) Aseswyd ansawdd cyffredinol y gwaith i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael eu cefnogi wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol eu plant yn ddigonol o leiaf mewn 36 o'r 42 o achosion (86%).

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd y tîm arolygu yn poeni bod y gallu i gynnal safonau'n cael ei danseilio gan broblemau staffio'r GTI.

(2) Roedd cyfarfodydd rhwng staff y GTI a staff NCH Cymru yn cyfeirio at broblemau wrth dderbyn cyfeiriadau gan CAMHS a'r cydlynydd ASBO. Nid oedd Onset yn cael ei gwblhau neu nid oedd ansawdd y wybodaeth yn ddigon da i ddilysu cyfeiriadau. Yn ychwanegol, nid oedd holiaduron cyn ac yn dilyn cyrsiau'n cael eu cwblhau bob amser ac roedd yna broblemau o ran datblygu cronfa ddata gyffredin a oedd ar gael i'r ddau grŵp o staff.

Casgliad: Aseswyd bod y maen prawf hwn yn **dda**.

Canlyniadau gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned

2.10 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI yn hyrwyddo ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth am y gwasanaethau a dderbyniant, a defnyddir y wybodaeth hon i wella canlyniadau.

Roedd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg raglen raddol tair blynedd o ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ond nid oedd hyn yn berthnasol i'r GTI ar adeg yr arolygiad.

Cryfderau:

(1) Gwahoddwyd plant a phobl ifanc a oedd wedi cwblhau rhaglen grŵp atal yr NCH/GTI i gwblhau ffurflen er mwyn gwerthuso'r rhaglen. Defnyddiwyd hon wedyn i gynllunio'r cwrs nesaf.

(2) Gwahoddwyd rhieni/gofalwyr a oedd yn rhan o raglen grŵp atal yr NCH/GTI i gwblhau ffurflen werthuso a ddefnyddiwyd i gynllunio'r cwrs nesaf.

Meysydd i'w gwella:

(1) O'r 35 o achosion a arolygwyd lle cwblhawyd Asset cychwynnol, gwahoddwyd y plant a phobl ifanc i gwblhau ffurflen *What do you think?* mewn deng achos, ond dim ond pedwar a gwblhawyd.

(2) O'r 10 o achosion atal a arolygwyd, gwahoddwyd y plant neu bobl ifanc i gwblhau hunanasesiad *Over to you* mewn 6 o'r achosion. Cwblhawyd dau o'r rhain.

(3) Dywedodd 7 o'r 19 o blant neu bobl ifanc a gwblhaodd holiadur cyfrifiadurol ar gyfer yr arolygiad nad oedd yn hawdd iawn iddynt leisio eu barn am y ffordd roedd pethau'n cael eu gwneud yn y GTI.

(4) Roedd y GTI yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig i blant a phobl ifanc, gan gynnwys gwybodaeth am y weithdrefn cwynion. O'r 19 o blant a phobl ifanc a gwblhaodd ein holiadur ar y cyfrifiadur, roedd 11 yn cofio cael gwybod sut i wneud cwyn i'r GTI.

2.11 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned.

Cryfder:

(1) O'r plant a phobl ifanc a gwblhaodd ein holiadur ar y cyfrifiadur, dywedodd 68% fod pethau *wedi gwella o ganlyniad i'w gwaith gyda'r GTI* yn gyffredinol

a dywedodd 84% eu bod yn credu y byddent yn llai tebygol o droseddu o ganlyniad.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yn y 10 o achosion atal a arolygasom, ni arweiniodd yr ymyriadau ar gyfer ffactorau troseddu blaenoriaeth gyntaf, ail a thrydedd at unrhyw gynnydd sylweddol mewn mwy na hanner yr achosion. Yn yr achosion hyn, nodwyd gwelliant amlwg mewn agweddau ac ymddygiad mewn tri achos yn unig. Roedd bregusrwydd wedi gostwng mewn dau allan o'r chwe achos perthnasol.

(2) Yn y 32 o achosion cymunedol a arolygasom, ni arweiniodd ymyriadau ar gyfer ffactorau troseddol blaenoriaeth gyntaf, ail a thrydedd at unrhyw gynnydd mewn hanner yr achosion, a dirywiad mewn pumed o'r achosion. O'r 11 o achosion perthnasol, roedd tystiolaeth o ostyngiad mewn ffactorau yn gysylltiedig ag amddiffyn/diogelu mewn pedwar achos yn unig.

(3) Cyflawnwyd nodau cynlluniedig mewn oddeutu hanner yr achosion mewn perthynas â gorchmynion atal a chymuned.

Casgliad: Aseswyd bod y meini prawf hyn yn **annigonol**.

3. GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N DESTUN DEDFRYDAU O GARCHAR

3.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI (neu eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod dal y ddedfryd er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Roedd gweithio gyda phlant a phobl ifanc a ddedfrydwyd i garchar yn flaenoriaeth uchel ble bynnag roeddent yn cael eu gosod ond roedd y GTI wedi sefydlu perthynas waith feunyddiol arbennig o dda gyda'r sefydliad cadarn lleol, sefydliad troseddwyr ifainc EM Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cryfderau:

(1) O'r 7 o achosion GDH a arolygasom, cwblhawyd yr asesiadau Asset cychwynnol yn unol ag amserlenni safonau cenedlaethol, roeddent yn cynnwys cyfweliad gyda phlant a phobl ifanc ac roeddent o ansawdd digonol.

(2) Cwblhawyd cynlluniau hyfforddiant cychwynnol a gynhwysai fwyafrif y rheolwyr achos yn unol ag amserlenni ac roedd y plant a phobl ifanc dan sylw'n cael gweld y rhain. Roedd ansawdd cyffredinol cynllunio ymyriadau i blant a phobl ifanc yn ddigonol mewn 6 allan o'r 7 achos a arolygwyd. Roedd gwaith ar y cyd rhwng y GTI a'r sefydliad yn cael ei gyflawni yn unol â chynlluniau, roedd yn cael ei gyfathrebu'n effeithiol ac yn cael ei gyflawni tu mewn i derfynau amser rhesymol.

(3) Roedd ansawdd cyffredinol y cyfathrebu rhwng staff y GTI, y sefydliad cadarn ac eraill, er mwyn hwyluso cyflawni'r cynllun hyfforddi a pharatoi plant a phobl ifanc er mwyn eu rhyddhau, yn ddigonol mewn 6 allan o 7 achos.

(4) Roedd lefel weithredol o gyfathrebu gyda'r sefydliad cadarn. Roedd apwyntiadau yn ystod y cyfnod dal yn bodloni safonau cenedlaethol ar gyfer yr holl achosion, ac roedd tystiolaeth bod rhieni/gofalwyr wedi cael cymorth i fynd i gyfarfodydd cynllunio ac arolygu mewn 6 achos (86%). Lle roeddent wedi cael eu cynnal, roedd gweithiwr y GTI wedi cyfrannu at y cyfarfod arolygu terfynol mewn 5 allan o'r saith (83%) achos.

Meysydd i'w gwella:

(1) Ni arweiniwyd asesiadau Asset cychwynnol yn llawn gan rieni/gofalwyr, gwasanaethau plant, addysg, hyfforddiant ac iechyd mewn bron i hanner yr achosion a arolygwyd.

(2) O'r saith achos a arolygwyd, gofynnwyd i blant a phobl ifanc gwblhau ffurflen *What do you think?* neu ffurflen debyg mewn dau achos yn unig. Cwblhawyd y rhain ar y ddau achlysur.

(3) Roedd y cynllun hyfforddiant cychwynnol yn gysylltiedig â chynlluniau ac asesiadau asiantaethau eraill, gan gynnwys y ffurflen *What do you think?* mewn un achos yn unig. Nid oedd gwaith rhwng staff y GTI ac eraill i ymdrin ag anghenion emosiynol/iechyd meddwl neu addysg statudol y brif ffrwd o safon ddigon uchel.

3.2 Maen prawf cyffredinol:

Caiff plant a phobl ifanc eu hamddiffyn trwy waith y GTI yn ystod cyfnod dal y ddedfryd er mwyn cyfrannu at hybu eu lles a, lle bo'n briodol, eu diogelwch.

Cryfderau:

(1) Gwelsom sgrinio cywir o risg i'r plant eu hunain ac eraill ac anfonwyd Asset bregusrwydd i'r sefydliad ymhen awr o blentyn neu unigolyn ifanc yn cyrraedd mewn chwe allan o'r saith achos a arolygwyd. Anfonwyd asesiadau perthnasol eraill, gan gynnwys ACD ac adroddiadau wedi'r llys, i'r sefydliad cadarn ymhen 24 awr ym mhob achos a chollfarnau blaenorol mewn pum achos. Lle nodwyd ffactorau risg perthnasol a phenodol, anfonwyd y rhain ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r sefydliad cadarn ar unwaith.

(2) Roedd ansawdd cyffredinol yr asesiadau risg o niwed yn ddigonol mewn pum allan o'r saith achos a arolygwyd.

(3) Roedd ansawdd cyffredinol y gwaith i helpu plant a phobl ifanc 'gadw'n ddiogel' yn ystod cyfnod dal eu dedfryd yn ddigonol mewn pump o'r saith achos a arolygwyd.

Meysydd i'w gwella:

(1) Cwblhawyd yr Asset – *Risg Ddifrifol o Niwed i Eraill* i safon ddigonol mewn un o'r pedwar achos a arolygwyd ond ni chyfathrebwyd hyn i'r staff a oedd yn rhan o'r achos dan sylw.

(2) Lle nodwyd bod plentyn neu unigolyn ifanc wedi bod mewn perygl o eraill, cwblhawyd cynllun gweithredu bregusrwydd mewn un o'r pedwar achos a arolygwyd yn unig.

(3) Gwiriodd a chofnododd y GTI statws gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc gyda'r gwasanaethau plant mewn pedwar allan o'r saith achos. Cafwyd cyswllt rhwng gweithiwr y GTI a'r gwasanaethau plant mewn tri achos, er gwaetha'r ffaith y nodwyd pedwar achos yn y sampl fel rhai a oedd yn risg i'w hunain a dau'n risg o eraill. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu bregusrwydd i fodloni anghenion mewn un achos yn unig.

(4) Roedd ymyriadau i helpu plant neu bobl ifanc 'gadw'n ddiogel' trwy gydweithio gyda'r gwasanaethau plant yn wan ac ansicr o ran rhannu gwybodaeth, datblygu cynlluniau a staff y GTI a gweithwyr cymdeithasol maes yn mynychu a chyfrannu at arolygon.

3.3 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI (neu eraill ar ei ran) yn ymgymryd â gweithgareddau priodol yn ystod cyfnod cymunedol y ddedfryd, er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag aildroseddu.

Roedd RHGGDD ar gael i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod cymunedol dedfrydau o garchar ac roedd yn gweithio'n effeithiol. O'r saith achos a arolygwyd, roedd pedwar wedi cael eu rhyddhau ar adeg yr arolygiad.

Cryfderau:

(1) Roedd plant a phobl ifanc yn derbyn apwyntiadau cyntaf amserol ac ymsefydliad ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa, ac roedd amlder yr apwyntiadau'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol mewn tri o'r pedwar achos perthnasol.

(2) Darparwyd gwasanaethau iechyd arbenigol ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn y tri achos perthnasol a darparwyd CHA arbenigol i blant a phobl ifanc dros 16 oed mewn dau o dri achos.

(3) Ymdriniwyd â materion amrywiaeth mewn tri achos (75%) lle nodwyd angen, roedd amlder apwyntiadau yn ddigon ar gyfer y risg o niwed ac amddiffyn ac roedd ymweliadau cartref pob achos yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol.

(4) Roedd gweithiwr y GTI yn monitro presenoldeb ar draws yr holl ymyriadau mewn tri allan o bedwar achos (75%), ac roedd barn am ymddygiad derbyniol neu annerbyniol a chydymffurfio'n gyson ym mhob achos.

Meysydd i'w gwella:

(1) Nid oedd cynlluniau ymyrryd ac asesiadau Risg o Niwed Sylweddol yn cael eu harolygu yn unol â safonau cenedlaethol yn yr achosion a arolygasom.

(2) Nid oedd darpariaeth arbenigol yn y gwasanaethau iechyd yn cael ei darparu'n gyson mewn perthynas ag iechyd emosiynol a meddwl.

(3) Mewn dau o bedwar achos, ailaseswyd llythrennedd plant a phobl ifanc ymhen deng niwrnod o'u rhyddhau i'r gymuned yn unol â'r safon genedlaethol.

(4) Dechreuodd gwaith yn y gymuned a oedd yn seiliedig ar weithgareddau yn y ddalfa mewn dau allan o bedwar achos. Hefyd, heriodd ymyriadau adeiladol y plant a phobl ifanc i dderbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad troseddol a'i ganlyniadau, a barnwyd bod hyn yn ddigonol mewn dau allan o bedwar

achos.

3.4 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r GTI yn dangos canlyniadau cadarnhaol yn ei waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun dedfrydau o garchar.

Cryfderau:

(1) Roedd ymddygiad wedi gwella ac ni chafwyd cynnydd mewn ymyriadau cyfyngol yn y sampl o saith GDH. Gwelwyd newid cadarnhaol ac amlwg mewn agwedd ac ymddygiad hefyd mewn 75% o'r achosion. Cydymffurfiodd y plant a phobl ifanc â gofynion y gorchymyn ym mwyafrif helaeth yr achosion.

(2) Mewn 75% o'r achosion, ni chofnodwyd collfarnau pellach. Ailsgoriwyd Asset mewn chwe allan o saith achos a gwelwyd gwelliant ym mhob achos.

(3) Gwnaed iawn yn y gymuned a gwelwyd buddion amlwg yn y gymuned o ran difrifoldeb troseddu, amlder troseddu a bygythiadau i ddioddefwyr a darpar ddioddefwyr.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd yr effaith ar ffactorau troseddol cyntaf, ail a thrydydd wedi gwella mewn tri allan o saith achos, nid oedd newid i dri achos ac roedd un wedi gwaethygu.

(2) Nid oedd ffactorau amddiffyn yn cael eu rheoli'n effeithiol yn gyson ac roedd tystiolaeth i nodi nad oedd digon o adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer amddiffyn.

(3) Nid oedd digon o gynnydd ar ffactorau troseddol megis CHA, iechyd emosiynol a meddwl a chymhelliant i newid.

(4) Nid oedd y GTI yn casglu gwybodaeth mewn ffordd systematig nac yn gwerthuso gwybodaeth ar ganlyniadau i arwain datblygu arfer.

Casgliad: Aseswyd bod y meini prawf hyn yn **ddigonol.**

4. DIODDEFWYR A CHYFIAWNDER ADFEROL

4.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae dioddefwyr plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn teimlo eu bod wedi cael eu cynorthwyo gan y TTI i deimlo'n fwy diogel a dod i ben â'u sefyllfa.

Roedd y cydlynydd dioddefwyr rhan-amser wedi gadael y GTI yn yr ychydig wythnosau cyn yr arolygiad. Nid oedd unrhyw un arall wedi ymgymryd â'r swydd ers hynny ac nid oedd wedi cael ei hysbysebu, ond cytunodd deiliad blaenorol y swydd i gyfweliad at ddibenion yr arolygiad. Felly, mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd pan roedd y cydlynydd yn y swydd. Roedd cyllid ar gyfer gwaith dioddefwyr yn gyllid tymor byr.

Cryfderau:

(1) Hysbysodd yr heddlu'r GTI o fanylion dioddefwyr yn unol â safonau cenedlaethol mewn 20 achos neu 77% o'r sampl. Cysylltwyd â dioddefwyr trwy lythyr neu dros y ffôn i ddechrau, a dilynwyd hyn gan ymweliad cartref yn dilyn cais ganddynt.

(2) Roedd y cydlynydd dioddefwyr yn rhagweithiol yn annog dioddefwyr i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder gwneud iawn a gweithiai'n agos gyda heddwas y GTI a'r swyddog gwneud iawn. Os oedd dioddefwr wedi gofyn am iawn uniongyrchol, gwnaed ymweliad ar y cyd i'r cartref er mwyn gwneud asesiad risg. Roedd y cydlynydd yn cymryd rhan yn y fforymau cynllunio achosion a gynhaliwyd ar gyfer plant a phobl ifanc y teimlwyd eu bod yn cyflwyno'r risgiau mwyaf, er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion dioddefwyr. Cynigiai'r GTI ymyriad adferol yn ei holl waith. Roedd y rhain yn cynnig cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â phlant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu, paneli troseddwyr ifainc, cynadleddau adfer ac amrywiaeth o weithgareddau gwneud iawn.

(3) Datblygwyd perthynas gref ag Adran Gwasanaethau Gweledol yr awdurdod lleol ac roedd hon wedi arwain at ystod o weithgareddau ar gyfer gwneud iawn. Roedd y rhain yn cynnwys glanhau traethau, cael gwared ar graffiti, garddio a chasglu sbwriel mewn mannau cymunedol. Roedd y Gwasanaethau Gweledol wedi llwyddo i gael cyllid gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer bws mini i helpu gyda'r gwaith hwn a thalu am y costau cynnal a chadw a chostau beunyddiol. Sefydlwyd cysylltiadau â St John Ambulance a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion hefyd, ac roedd pobl ifanc wedi bod yn rhan o amrywiaeth o weithgareddau gwneud iawn trwy'r sefydliadau hyn. Rhoddwyd nifer o adroddiadau o'r cyfryngau i arolygwyr yn amlygu effaith gadarnhaol y gwaith hwn yn y gymuned.

(4) Roedd y cydlynydd dioddefwyr wedi bod yn gyfrifol am drefnu Diwrnod Troseddau Ceir ac Ymwybyddiaeth o Ddioddefwyr mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân De Cymru, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans. Cynhaliwyd y digwyddiad ddwywaith y flwyddyn a derbyniodd gyfeiriadau ar gyfer plant a phobl ifanc i helpu gan TTI De Cymru.

(5) Sefydlwyd perthynas waith dda gyda Cymorth i Ddioddefwyr, y gwasanaeth cyswllt meddygon teulu (a ddarparwyd gan Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol y Fro ac sy'n cynnig cynghori i bobl sy'n dioddef gofid nad oedd angen mynediad i wasanaeth iechyd meddwl tymor hir arnynt) a'r gwasanaeth prawf. Roedd trefniadau yn eu lle i gyfeirio dioddefwr i'r Bwrdd Iawndal Anafiadau Troseddol mewn achosion priodol a throsglwyddo gwasanaethau dioddefwyr o'r GTI i'r gwasanaeth prawf unwaith i'r plentyn neu unigolyn ifanc a droseddodd gyrraedd 18 oed.

(6) Dechreuodd gwaith gwneud iawn yn y gymuned o fewn tri mis cyntaf y gorchymyn mewn 16 (89%) o achosion y sampl. Fel rhan o raglen y GTI, mynychodd plant a phobl ifanc grwpiau ymwybyddiaeth a gynlluniwyd ac a ddarparwyd gan y cydlynydd dioddefwyr. Ariannwyd y rhain gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac roeddent ar gael am 40 wythnos y flwyddyn.

(7) Roedd aelodau'r Panel Troseddwyr Ifainc wedi cael hyfforddiant y BCI ac roedd y swyddog gwneud iawn wedi cwblhau hyfforddiant asesu risg gyda'r heddlu.

(8) Cyfwelwyd â dau ddioddefwr/cwblhaodd dau ddioddefwr holiadur ar gyfer yr arolygiad ac roedd eu hymatebion yn bennaf gadarnhaol, yn dangos bod y cyswllt gyda'r GTI wedi bod yn amserol a defnyddiol.

(9) Roedd gan y GTI bolisi i ddioddefwyr, gweithdrefnau a thaflenni gwybodaeth gyhoeddus yn eu lle.

Meysydd i'w gwella:

(1) Roedd ansawdd cyffredinol y gwaith a wnaed i helpu dioddefwyr deimlo'n ddiogel a dod i ben â'r sefyllfa yn annigonol neu wael mewn 16 allan o 42 o'r achosion (42%) a arolygasom.

(2) Cwblhawyd asesiad o anghenion troseddwyr ond nid oedd yn bodloni'r safon a gynhwysir yn y canllawiau ar arfer effeithiol.

(3) Gwahoddwyd dioddefwyr i gymryd rhan mewn proses cyfiawnder adferol a oedd yn perthyn i'r trosedd mewn wyth achos yn unig neu 31% o'r sampl. Anaml iawn y byddai dioddefwyr yn mynychu'r Panel Troseddwyr Ifainc.

(4) Roedd cofnodi gwybodaeth dioddefwyr a'r gweithredu a wnaed yn wael. Lle na wahoddwyd y dioddefwr i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder adferol, ni chofnodwyd y penderfyniad mewn 13 allan o'r 18 o achosion perthnasol.

(5) O gyfanswm sampl o 42 o achosion, roedd y plant a phobl ifanc wedi bod yn

rhan o wneud iawn yn uniongyrchol i'r dioddefwr mewn dau achos yn unig a gwneud iawn yn gymunedol mewn 17 achos. Ni wnaed iawn o gwbl mewn 23 o achosion (55%).

(6) Ni roddwyd adborth i ddioddefwyr ar y cynnydd roedd plant a phobl ifanc yn ei wneud ac ni ofynnwyd iddynt roi adborth am eu profiadau eu hunain er mwyn gwella'r gwasanaeth.

(7) Adroddodd aelodau'r Panel Troseddwyr Ifainc nad oeddent yn credu, yn ymarferol, bod ystod ddigonol o ymyriadau ar gael, yn bennaf oherwydd prinder staff.

Casgliad: Aseswyd bod y maen prawf hwn yn **ddigonol**.

5. RHEOLI AC ARWAIN

Arwain a chynllunio

5.1 Maen prawf cyffredinol:

Mae'r Bwrdd Rheoli'n gweithio'n weithredol gydag eraill, gan gynnwys rheolwr y GTI, mewn ffordd integredig er mwyn mwyhau'r tebygrwydd o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Lleolwyd y GTI yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg. Pennaeth y Gwasanaethau Plant oedd yn gyfrifol am y GTI. Roedd y swydd hon, yn ogystal â swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion, wedi bod yn wag ers tro. Roedd Cyfarwyddwr interim ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn y swydd ers rhyw chwe mis a phenodwyd Cyfarwyddwr parhaol yn yr wythnos yn dilyn gwaith maes yr arolygiad.

Roedd y Prif Weithredwr wedi dirprwyo Cyfarwyddwr interim y Gwasanaethau Cymdeithasol i reoli'r GTI a chadeirio Bwrdd Rheoli'r GTI. Am ryw 12 mis cyn yr arolygiad, cafwyd problemau ag aelodaeth y Bwrdd oherwydd newidiadau allweddol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, addysg, iechyd a'r heddlu. Nid oedd y rhain wedi eu datrys erbyn yr arolygiad.

Cryfderau:

(1) Sefydlwyd y Bwrdd Rheoli ar lefel strategol ac roedd ganddo amodau gorchwyl cytunedig. Cadeiriwyd ef gan Gyfarwyddwr interim y Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r Prif Swyddog Prawf Cynorthwyol yn ddirprwy.

(2) Cwblhawyd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 mewn pryd ac roedd y BCI wedi ei gymeradwyo.

(3) Roedd gwybodaeth amserol am berfformiad yn cael ei chasglu ar gyfer y Bwrdd Rheoli ac roedd yn cael ei chyflwyno bob tri mis i'r BCI.

Meysydd i'w gwella:

(1) Yn ystod y flwyddyn yn arwain at yr arolygiad hwn, roedd Bwrdd Rheoli'r GTI wedi gweld newidiadau allweddol i'w aelodaeth, gan gynnwys y cadeirydd ac uwch gynrychiolwyr addysg. Nid oedd y swyddi hyn wedi cael eu llenwi'n barhaol ac nid oedd aelodau'n meddu ar ddigon o statws a/neu amser i gyflawni'r cyfrifoldebau a oedd yn rhan o'r rôl. Roedd ymroddiad partneriaid yn gyffredinol ddrwg, a gellid gweld hyn gan lefel y gynrychiolaeth gan y gwasanaethau heddlu, a lefelau presenoldeb isel. Roedd hyn wedi arwain at

ddiffyg arweiniad, cefnogaeth a chraffu ar gyfer rheolwr y GTI; tystiolaeth brin o gynllunio strategol; a diffyg unrhyw ymwybyddiaeth o faterion gweithredol a phroblemau yn y gwasanaeth.

(2) Yn absenoldeb arweiniad cryf a chadeirydd parhaol, roedd cyfarfodydd yn cael eu llywio gan reolwr y GTI. Nid oedd y rheolwr hwn yn cael ei gefnogi'n effeithiol ac nid oedd yn atebol i unrhyw un.

(3) Gwelsom dystiolaeth brin i awgrymu bod y Bwrdd Rheoli wedi sicrhau bod Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 wedi ei integreiddio â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phobl Ifanc, Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan, na chynlluniau allweddol asiantaethau partner. Ni welsom dystiolaeth o ymdrin â materion amrywiaeth wrth gynllunio'n strategol a gweithredol, ac nid oedd gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) am Gynllun Iaith wedi eu rhoi ar waith yng nghyd-destun y GTI.

(4) Roedd aelodau'r Bwrdd Rheoli'n ansicr o'u rolau a chyfrifoldebau. Nid oeddent wedi cael eu hymsefydlu ac nid oedd ganddynt fynediad i gyfleoedd datblygu a hyfforddi. Dywedwyd wrthym *fod y Bwrdd i weld yn mynd o gyfarfod i gyfarfod heb unrhyw waith o bwys yn cael ei gyflawni rhwng y cyfarfodydd.*

(5) Roedd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chyflwyno i'r BCI ond nid oedd yn cael ei haddasu i'w defnyddio gyda gwybodaeth am y gwasanaeth ehangach, er mwyn arwain prosesau cynllunio a chomisiynu lleol na gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc a gyfeirir at y GTI.

Partneriaeth ac adnoddau

5.2 Maen prawf cyffredinol:

Mae sefydliadau partner a'r GTI yn cydweithio'n effeithiol i ddiogelu'r cyhoedd, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Cryfderau:

(1) Roedd rheolwr y GTI yn cynnal cyfarfodydd chwarterol rheolaidd gydag asiantaethau partner i drafod materion o gyd-ddiddordeb a oedd yn berthnasol i'r GTI. Roedd cytundebau lefel gwasanaeth, contractau a phrotocolau yn eu lle gyda phartneriaid statudol a phartneriaid perthnasol eraill.

(2) Roedd rheolwr y GTI yn aelod o nifer o bartneriaethau amlasiantaeth gan gynnwys: Tîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant, LSCB, Partneriaeth Bro Ddiogelach, Grŵp Strategol PPO, Tîm Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, TTI De Cymru a Rheolwyr TTI Cymru. Trwy'r cyfarfodydd hyn, roedd y GTI mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â chynllunio strategol a gweithredol ar bob

agwedd ar atal troseddu, gweithio gyda phobl a oedd wedi troseddu, diogelu'r cyhoedd, amddiffyn plant a phobl ifanc, ac iechyd.

(3) Roedd cyflwyno ymagwedd a arweinir gan risg (sy'n blaenoriaethu tebygrwydd aildroseddu) wedi annog asiantaethau i fynychu cyfarfodydd cynllunio gofal er mwyn adnabod a rheoli risg. Roedd Panel Atal ac Osgoi newydd yn cael ei sefydlu ar adeg yr arolygiad yn gysylltiedig â'r strategaeth PPO ac yn gweithredu oddi mewn i fframwaith cyffredinol y Bartneriaeth Bro Ddiogelach.

(4) Roedd y GTI wedi cael cyllid gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol am swydd gweithiwr prosiect datblygu atal am chwe mis i ymchwilio i'r angen ac ystyried opsiynau am ddatblygu PCCI ar gyfer yr awdurdod lleol.

(5) Roedd gan Awdurdod Heddlu De Cymru *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Hysbysiad Gorchmynion Heddlu* yn cwmpasu'r Gwasanaeth Oedolion priodol a phrotocol gyda'r GTI a chrwneriaid ar gyfer arolygon achos a gynhwysai farwolaeth plentyn neu unigolyn ifanc. Secondiwyd swyddog heddlu'r GTI ac roedd ganddo rôl glir i fwyhau'r defnydd o geryddon a rhybuddion terfynol. Roedd gan y swyddog fynediad i gyfrifiadur cenedlaethol yr Heddlu a defnyddiai hwn bob dydd er mwyn nodi a monitro achosion cerydd a rhybudd terfynol. Cadwyd at derfynau amser a chyflwynwyd rhybuddion terfynol gan arolygydd heddlu ym mhresenoldeb swyddog heddlu'r GTI. Roedd y swyddog heddlu'n rhan o drefnu ymyriadau a chefnogi rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc trwy'r broses.

Meysydd i'w gwella:

(1) Er i'r GTI feddu ar staff priodol yn gyffredinol, roedd cyllid tymor byr ar gyfer swyddi, absenoldeb salwch tymor hir ac effaith gweithredu gweithdrefnau disgyblu wedi creu llwyth gwaith trwm a morâl isel. Roedd staff yn sylweddoli nad oeddent yn cwrdd â safonau cenedlaethol mewn meysydd allweddol megis gwaith atal a statudol a ni allent weld unrhyw newid yn y dyfodol agos. Roedd rheolwyr y GTI wedi dadansoddi'r broblem; ond roeddent yn ei chael hi'n anodd cael cefnogaeth am atebion tymor byr a chanolig gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau partner.

(2) Roedd gan y GTI brotocolau, contractau a chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid statudol a sefydliadau perthnasol eraill, ond nid oeddent yn cael eu harolygu, gwerthuso a diweddaru'n gyson. Cytunwyd y protocol gyda thimau gwaith maes gwasanaethau plant ar ffurf ddrafft yn unig ym mis Rhagfyr 2005. Roedd problemau gweithredol o ran dehongli trothwyon ar gyfer plant a phobl ifanc mewn angen ac anghenion llety heb eu datrys. Nododd ein dadansoddiad o asesiadau ffeiliau achos nad oedd cyswllt rheolaidd â gwasanaethau plant yn cael ei gynnal i safon ddigonol.

(3) Roedd problemau tebyg yn bodoli ar gyfer ymarferwyr iechyd mewn perthynas â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ar achosion unigol. Roedd gan y GTI a Chyfarwyddiaeth Iechyd Plant Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a Bro Morgannwg gytundeb drafft, dyddiedig mis Gorffennaf 2007, a oedd yn

cwmpasu'r mater ond nid oedd wedi ei gymeradwyo'n ffurfiol. Yn ychwanegol, roedd y nyrs camddefnyddio sylweddau a seiciatregydd ymgynghorol y CAMHS yn gweithio fel rhan o rwydwaith clinigol a reolwyd gan CAMHS yn Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda. Yn y cyd-destun hwn, byddai angen cytuno ar rannu gwybodaeth gyda'r ddwy ymddiriedolaeth.

(4) Hysbysodd yr ANC arolygydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru nad oedd hi'n credu bod ei sgiliau fel ymwelydd iechyd cymwysedig a chymwysterau pellach mewn iechyd rhywiol a chynllunio teulu'n cael eu defnyddio'n llawn. Roedd yn darparu ymyriadau rheoli dicter yn y GTI ond ni chredodd fod ganddi'r sgiliau ar gyfer hyn ac nad y hi oedd yr unigolyn priodol ar gyfer y rôl hon.

(5) Hysbysodd seiciatregydd ymgynghorol y CAMHS arolygydd AGIC nad oedd ei waith yn y GTI yn cael ei adlewyrchu yn ei gynllun swydd, a allai fod yn bwysig pe bai angen rhywun i gymryd ei le yn y dyfodol.

(6) Roedd angen diwygio cytundeb yr awdurdod addysg lleol oherwydd cynllunio drwg ar gyfer addysg i blant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r GTI. Gwelsom dystiolaeth o oedi hir wrth gael darpariaeth amgen mewn perthynas â lle mewn ysgolion ac unedau cyfeirio arbenigol ar gyfer y plant a phobl ifanc mwyaf bregus.

(7) Roedd y diffyg cydlynu ac ymroddiad hwn ar lefel strategol yn cael effaith sylweddol ar faterion arfer gan nad oedd adnoddau a gymeradwywyd gan asiantaethau partner ar gael bob amser am gyfnodau hir. Roedd y GTI mewn perygl o gael ei ynysu o asiantaethau partner ac roedd wedi datblygu ei opsiynau ei hun, fel y gwelwyd gan y rhaglen Goruchwyliaeth a Gwyliadwriaeth Ddwys i ymgysylltu plant a phobl ifanc heb ddarpariaeth addysgol.

(8) Ar ôl llwyddo i gael cyllid a chytundeb amlasiantaeth am swydd gweithiwr prosiect datblygu atal ar gyfer y chwe mis yn diweddu ar 31 Mawrth 2008, methodd y GTI i hysbysebu'r apwyntiad erbyn Tachwedd 2008 oherwydd gweithdrefnau rheoli swyddi mewnol yr awdurdod lleol. O ystyried y daeth y gymeradwyaeth ar gyfer hyn gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, roedd yn rhyfedd bod adran arall yn yr awdurdod lleol yn achosi cymaint o oedi.

Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

5.3 Maen prawf cyffredinol:

Caiff canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc eu gwella gan staff effeithiol.

Cryfderau:

(1) Roedd holl staff yr awdurdod lleol yn destun *Polisi a Chyfarwyddyd Goruchwylio a Datblygu Staff* a gyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol ym mis Ionawr 2002. Roedd y ddogfen hon yn esbonio a chwmpasu holl agweddau ar oruchwylio, gan gynnwys rolau'r goruchwyliwr a'r sawl a oedd yn cael ei oruchwylio.

(2) Roedd staff arbenigol y GTI yn destun polisïau goruchwylio'r asiantaeth a oedd yn eu cyflogi ac roeddent yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi gan eu rheolwr llinell GTI fel y bo'n briodol.

(3) Defnyddiai'r GTI broses werthuso flynyddol a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer ei staff. Roedd y ffurflen *Adolygu Datblygiad Personol S4* ar gael i staff unigol, ynghyd â chyfarwyddyd clir ar sut i'w chwblhau. Roedd y fformat yn gynhwysfawr a chwmpasai adolygiad o'r flwyddyn flaenorol; pethau cadarnhaol ynghyd â meysydd i'w datblygu; ac anghenion a chyfleoedd hyfforddi a datblygu ymarferol. Roedd staff a gyflogwyd gan asiantaethau eraill yn cael gwerthusiad blynyddol gan yr asiantaeth a oedd yn eu cyflogi a gynhwysai gyfraniad gan y GTI.

(4) Roedd y GTI yn gysylltiedig â chyfarfodydd misol grŵp trafod hyfforddiant y gwasanaethau plant trwy reolwr gweithrediadau'r GTI ac uwch ymarferydd. Roedd y grŵp hwn yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant craidd. Roedd staff yn gallu mynd at gyrsiau ar iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, technoleg gwybodaeth, amddiffyn plant, datblygiad plant, amrywiaeth, trais yn y cartref ac yn y blaen, fel rhan o raglen flynyddol gynlluniedig. Yn ychwanegol, roeddent yn cael hyfforddiant gan yr asiantaeth a oedd yn eu cyflogi a rhaglen hyfforddiant corfforedig yr awdurdod lleol. Roedd aelod o staff a secondiwyd ar gyfer hyfforddiant Diploma Gwaith Cymdeithasol wedi llwyddo i gwblhau'r cwrs ac roedd yn cael ei gyflogi fel gweithiwr cymdeithasol cymwysedig yn y GTI.

(5) Roedd staff y GTI hefyd yn gallu mynd at Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid a ddatblygwyd gan y BCI. Nodwyd dau aelod o staff i gychwyn ar y cwrs yn hwyrach yn 2007 ac roedd un arall i fod i ddechrau gradd sylfaen mewn cyfiawnder ieuenctid ond bu rhaid oedi hyn oherwydd amgylchiadau personol.

(6) Roedd gan y GTI fynediad i gyrsiau hyfforddiant arbenigol allanol ar gyfer rolau a meysydd gwaith penodol. Roedd y rhain yn cynnwys ymwybyddiaeth o hil ac amrywiaeth, asesu troseddwyr rhywiol, rheoli dicter, UMIS a YOIS.

(7) Roedd gan y GTI raglen ymsefydlu a hyfforddi cynhwysfawr yn ei lle ar gyfer ei staff gwirfoddol yn cwmpasu modiwlau craidd ac arbenigol a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cyrsiau'n cael eu trefnu fel arfer gyda'r nos ac ar benwythnosau ar gyfer aelodau'r Panel Troseddwyr Ieuenctid, eiriolwyr dioddefwyr, mentoriaid, cyfryngwyr/cynghorwyr rhieni, oedolion priodol a gweithwyr gwneud iawn. Roedd grŵp wedi mynychu Cynnydd, cynhadledd genedlaethol ar gyfer staff cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac roedd grŵp arall o wirfoddolwyr wedi dilyn addysg a hyfforddiant mewn swydd a drefnwyd ar gyfer gwirfoddolwyr gan y BCI fel rhan o ddatblygu gweithlu yng Nghymru.

(8) Roedd gan y GTI weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod holl wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi eu diweddaru mewn perthynas â staff a gwirfoddolwyr. Gwiriwyd y rhain fel rhan o'r arolygiad ac roeddent yn dderbyniol.

Meysydd i'w gwella:

(1) Er i bolisïau goruchwylio a gwerthuso fod yn eu lle, roedd yn glir o'r cyfweliadau a'r wybodaeth a dderbyniwyd trwy holiaduron arolygu nad oedd staff yn cael eu goruchwylio'n fisol yn ffurfiol. Roeddent yn siarad yn gadarnhaol am oruchwyliaeth anffurfiol ond, o'r chwe ymateb a dderbyniasom, dywedodd pump (83%) eu bod yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol bob tri mis neu bob chwe mis ac roedd un (17%) yn cael goruchwyliaeth bob chwe wythnos. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif, pump (83%), yn fodlon ag ansawdd yr oruchwyliaeth hon. Adroddodd pedwar allan o'r chwe (67%) ymatebydd eu bod wedi cael eu gwerthuso yn y 12 mis diwethaf a soniodd 2 nad oedd hyn yn gysylltiedig â'r cynllun cyfiawnder ieuenctid.

(2) Roedd yr holl staff, gan gynnwys y staff gweinyddol y cyfwelwyd â nhw, yn feirniadol iawn o uwch reolwyr y GTI ond pwysleisiasant nad oedd hyn yn cynnwys yr uwch ymarferwyr. Roedd staff yn teimlo dan bwysau oherwydd eu llwyth gwaith ac nid oeddent yn teimlo'n sicr yn y GTI. Cafwyd tystiolaeth i hyn gan yr ymateb i rai cwestiynau allweddol. Adroddodd pum staff (83%) nad oedd rheolwyr yn defnyddio ymagweddau rheoli proffesiynol enghreifftiol nac yn ymddwyn fel rheolwyr cadarnhaol.

(3) Roedd gan y GTI y strwythurau yn eu lle i gefnogi hyfforddi a datblygu staff trwy raglenni a digwyddiadau goruchwylio, gwerthuso a hyfforddi mewnol ac allanol. Fodd bynnag, nid oedd ganddo gynllun hyfforddi a oedd yn rhestru a chydlynu anghenion hyfforddi craidd a phenodol y tîm a staff unigol.

(4) Yn ymarferol, oherwydd y problemau rheoli a staffio a nodwyd eisoes, nid oedd staff yn gallu achub ar y cyfleoedd hyn yn llawn. Roedd pedwar allan o'r chwe staff (67%) y cyfwelsom â nhw yn credu nad oedd eu hanghenion hyfforddi a datblygu'n cael eu bodloni. Dim ond un aelod o staff oedd wedi cwblhau Tystysgrif Broffesiynol Arfer Effeithiol y BCI.

(5) Nid oedd barnau defnyddwyr gwasanaeth a rhan-ddeiliaid yn cael eu casglu

fel mater o drefn a'u coladu er mwyn arwain darpariaeth gwasanaethau.

(6) Roedd gweithdrefnau clir yn eu lle i reoli gweithdrefnau disgyblu, gallu ac achwyn. Rhoddwyd y rhain ar waith a gwelodd yr arolygwyr ganlyniad hyn yn ystod yr arolygiad, oherwydd materion cyfredol a heb eu datrys neu achosion eraill yn mynd yn eu blaen. Beth bynnag fo manylion pob achos unigol, roedd yn glir bod staff yn teimlo'n fregus oherwydd iddynt beidio â chael digon o wybodaeth ac, yn y gwacter hwn, roeddent wedi dehongli digwyddiadau'n negyddol ac roedd hyn yn niweidio'r gwasanaeth.

Casgliad: Aseswyd bod y meini prawf hyn yn **annigonol.**

Atodiad 1: Gwybodaeth gyd-destunol

Ardal

Lleolir GTI Bro Morgannwg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac, yn GTI unigol, mae'n cwmpasu awdurdod lleol Bro Morgannwg.

Yng Nghyfrifiad 2001, mesurwyd poblogaeth o 119,292 ar gyfer yr ardal, roedd 11.3% yn 10-17 oed. Roedd hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru/Lloegr, sef 10.4%.

Roedd poblogaeth Bro Morgannwg yn Brydeinwyr gwyn yn bennaf. Roedd y boblogaeth â threftadaeth ddu neu o leiafrifoedd ethnig yn 2.2%, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru/Lloegr sef 8.7%.

Roedd lefelau troseddau yr adroddwyd amdanynt ar gyfer plant a phobl ifanc 10-17 oed ym Mro Morgannwg yn 52.4 fesul 1,000 yn erbyn cyfartaledd Cymru a Lloegr o 53.9, felly roedd Bro Morgannwg ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr.

GTI

Roedd GTI Bro Morgannwg yn un o saith GTI yn cwmpasu ardaloedd Prawf a Heddlu De Cymru. Darparwyd gwasanaethau iechyd cymunedol gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a Bro Morgannwg.

Dangosodd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2007/2008 fod gan y GTI 32 o staff a 31 o wirfoddolwyr. Roedd 63% yn fenywod ac roedd gan 0.03% gefndir du neu leiafrif ethnig. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd gan y GTI 24 aelod staff, chwech ohonynt yn rhan-amser, sy'n cyfateb i gyfanswm o 18 o staff cyfystyr ag amser llawn.

Lleolwyd gwaith y GTI, gan gynnwys y RHGGDD, mewn un brif swyddfa yn nhref Y Barri sydd o fewn cyrraedd hawdd i Lys Ieuenctid Bro Morgannwg.

Data perfformiad y BCI

Rhoddodd crynodeb y BCI o berfformiad cyffredinol y GTI a oedd ar gael ar adeg yr arolygiad ar gyfer y cyfnod tan fis Mawrth 2007 sgôr o 4 i GTI Bro Morgannwg ar raddfa lle 5 yw'r uchaf. Roedd hyn yn uwch na'r sgorau cenedlaethol ac yn gyson â pherfformiad rhanbarthol ynghyd â pherfformiad GTI cymharol (lefel 4 hefyd).

Derbyniodd perfformiad ar leihau aildroseddu sgôr o 5, sy'n sylweddol uwch na'r holl gymaryddion.

Atodiad 2: Data arolygu

Cyflawnwyd gwaith maes ar gyfer yr arolygiad hwn ym mis Hydref 2007.

Cynhwysai'r arolygiad:

- dystiolaeth ymlaen llaw
- archwilio data ac asesiadau perfformiad y BCI
- archwilio arfer mewn sampl o achosion, fel arfer ar y cyd â'r rheolwr achos neu gynrychiolydd arall, fel a ganlyn:
  - 10 ffeil atal
  - 10 rhybudd terfynol
  - 10 cosb haen gyntaf (gorchmynion cyfeirio, gorchmynion gwneud iawn)
  - 15 dedfryd gymunedol
  - 7 achos i'r ddalfa
- cyfweliadau ac ymatebion holiadur gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr
- cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc yn y ddalfa
- cyfarfodydd gyda staff, rheolwyr a phartneriaid.

Mae'r dewis sampl yn ystyried canran y merched neu fenywod ifainc mewn cyswllt â'r GTI. Cynhwysir nifer gynrychioladol yn y sampl achosion wedyn.



Mae'r dewis sampl yn ystyried canran y plant neu bobl ifanc ddu neu o leiafrifoedd ethnig mewn cyswllt â'r GTI. Cynhwysir nifer gynrychioliadol yn y sampl achosion wedyn.



Mae'r dewis sampl yn cynnwys nifer o achosion risg uchel o niwed ac achosion RHGGDD/PPO. Mae'r niferoedd yn dibynnu ar faint y TTI/GTI dan sylw ac maent yn amrywio rhwng 6 a 12 achos fesul sampl.





Atodiad 3: Trefniadau cyd-arolygu

Dechreuodd y rhaglen cyd-arolygu TTI ym mis Medi 2003 a hon yw'r rhaglen arolygu lawn gyntaf i archwilio gwaith TTI. Gweithredwyd hi dros bedwar cyfnod, yn cwmpasu holl TTI Cymru a Lloegr dros gyfnod o bum mlynedd. O fis Medi 2005, mae canlyniadau Lloegr wedi cyfrannu at gyd-arolygon ardal gwasanaethau plant (dan arweiniad Ofsted) ac asesiad corfforedig o wasanaethau awdurdodau lleol (dan arweiniad y Comisiwn Archwilio).

Atodiad 4: Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'i chod ymarfer

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygiaeth annibynnol, a ariennir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac sy'n uniongyrchol atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein pwrpas yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc sy'n ceisio lleihau aildroseddu a diogelu'r cyhoedd, pwy bynnag sy'n cyflawni'r gwaith hwn o dan nawdd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, a gweithio gydag arolygiaethau eraill yn ôl y gofyn
- cyfrannu at well berfformiad gan y sefydliadau a arolygwn
- cyfrannu at bolisïau cadarn a gwasanaethau effeithiol, yn enwedig ym maes amddiffyn y cyhoedd, trwy ddarparu cyngor a rhannu arfer da, yn seiliedig ar ganlyniadau arolygiadau, i weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hybu'n weithredol gydraddoldeb hil a materion amrywiaeth ehangach, yn enwedig yn y sefydliadau a arolygwn
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig trwy waith ar y cyd ag arolygiaethau eraill.

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn anelu at gyflawni ei phwrpas a bodloni egwyddorion y Llywodraeth mewn perthynas ag arolygu yn y sector cyhoeddus trwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, teg a chwrtais
- adrodd ar ganlyniadau arolygiadau ac argymhellion gwella mewn da bryd ac i safon dda a chyhoeddi'r rhain
- hyrwyddo cydraddoldeb hil a rhoi sylw i amrywiaeth ym mhob agwedd ar ei gwaith, gan gynnwys yn ein harferion cyflogaeth a phrosesau cyfundrefnol ei hun
- lleihau'r gwaith ychwanegol sy'n ymddangos i ardaloedd prawf neu dimau troseddau ieuenctid [y rhai a arolygwyd] o ganlyniad i'r broses arolygu.

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau am arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chwmpas ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf EM
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London, SW1P 2BQ

http://www.inspectorates.justice.gov.uk/hmiprobation